# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 337

Mawrth 2011

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Y Morglawdd

Gŵr hynaws, hyfryd yw rheolwr y Morglawdd - Ray Jones; un o Bwllheli (sydd gyda llaw yn teithio yn ôl ac ymlaen o'r Borth i Bwllheli bob dydd er mwyn bod adre bob nos). Mae'n rheolwr profiadol, gweithodd llynedd ar forglawdd Aberaeron a chyn hynny ar (Marchlyn Electric Mountain) Dinorwig, ac i gyrff megis 'Tarmac' a Chyngor Gwynedd. Bellach cwmni Bam o'r Iseldiroedd sy'n ei gyflogi.

Cyllid ei gyfrifoldeb presennol yw 13 miliwn, a bydd yr holl waith yn dod i ben ym mis Tachwedd eleni. Hyd yma mae popeth wedi mynd yn hwylus ar wahân i gyflenwad cerrig o chwarel yr Hendre, Ystradmeurig. Yn anffodus, does dim digon o gerrig gwirioneddol fawr ar gael yno, ac felly mae'n fwriad mewnforio 42,000 tunnell o Norwy. Edrychwn ymlaen at weld llong enfawr yn llawn meini anferth yn y bae cyn hir.

Mae Ray yn gredwr mawr fod rhaid i'w waith fod yn rhan o'r gymuned ac o'r hewydd mae'n croesawu pob ymweliad i'w swyddfa ger y Nisa. Mae e eisoes wedi annerch plant Craig yr Wylfa er mwyn esbonio'r gwaith ar y traeth, ac mae'r cwmni hefyd yn bwriadu cyfrannu at gronfa'r Carnifal. Mae'r Cymro Cymraeg hwn yn gwbl ymwybodol o ofidiau pobl am welydd tai yn siglo a phresenoldeb loriau mawrion ar hyd y pentre, ac yn erfyn ar bawb i fod yn amyneddgar. Ei fwriad clir yw cadw golw ar y sefyllfa drwy gydweithrediad arbenigwyr a'r Heddlu, ac ymateb i unrhyw ofid gyda ffeithiau teg.




Mae 13 o ddynion yn gweithio ar y cynllun a da yw nodi bod wyth ohonynt yn ddynion lleol. Golygfa gwerth chweil yw'r un o graeniau mawr melyn yn crafangu'r creigiau ac yn eu codi fel plu o un man i'r llall. Wrthi'n brysur wrthlaw ma loriau enfawr yn arllwys tunelli o gerrig, pob darn wedi ei farcio'n ofalus er nodi eu pwysau. Mae adeiladu pob sarn fach (groynes) yn golygu haenau o gerrig anferth, cerrig mawr a cherrig llai mawr! Gwaith manwl sy'n gwbl ddibynnol ar weithio ogwmpas y llanw. Yr amser gorau i'w gweld yw yn y gwyll, pan yw'r llifoleuadau yn gwneud y cyfan yn hynod ddramtig!

Ewch draw i weld Ray er mwyn i chi weld drosoch eich hun y gofal sy ynghlwm â'r cynllun gwethfawr hyn sy'n argoeli mor dda. Mwy o luniau ar dudalen 4.

---

# *Y Tincer* yn arwain y ffordd

Newydd da i ddarllenwyr *Y Tincer* yw bod y ffordd sy'n arwain tuag at Benrhyn-coch ac oddi yno wedi cael wyneb newydd am yr ail waith mewn deufis. Bu'n rhaid i'r contractwyr ddadwneud y cyfan o'r gwaith a wnaed cyn y Nadolig.

Er gwaethaf yr anhwylustod mawr a achoswyd i bawb, mae'n ymddangos fod y gwaith o safon dderbyniol y tro hwn. Amser yn unig a ddengys.

Hyd y gwyddys, dim ond *Y Tincer* a welodd yn dda i roi sylw i'r stori hon.Y mae'n stori a anwybyddwyd yn llwyr gan y wasg a'r cyfryngau yn lleol. Gan fod teimlad cryf yn y pentref fod safon y gwaith yn gwbl anfoddhaol, penderfynwyd neilltuo tudalen flaen *Y Tincer* i wyntyllu mater oedd yn amlwg yn pryderu darllenwyr y papur. Wedi'r cyfan, ein harian ni fel trethdalwyr sy'n talu am y pethau hyn ac mae'n iawn i ni fynnu safon a gwerth am arian mewn dyddiau pan fo gwasgfa ariannol enbyd ar bawb a phopeth.

Braf gweld fod yna weithredu wedi digwydd a bod y contractwyr wedi gorfod ailwneud y gwaith ar eu cost eu hunain. Ymddengys iddynt fynd yn groes i gyngor y Cyngor Sir wrth gychwyn ar y gwaith yng nghanol y tywydd eithafol a gafwyd cyn y Nadolig. Fe roddodd y *Cambrian News* sylw i'r mater yr wythnos ddiwethaf ac yn dadlennu fod gwerth y cytundeb gwreiddiol yn £77,000.




Llun: Elnion Dafydd

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 337 | Mawrth 2011



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



**SWYDDOGION**

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**GOHEBYDDION LLEOL**

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **EBRILL 7** a **EBRILL 8** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **EBRILL 21**

**MAWRTH 17** Nos Iau Ar lafar - noson i ddathlu tafodiaith Ceredigion yng nghwmni Elen Pen-cwm a Ryland Teifi ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 7.00 Tocynnau: £4

**MAWRTH 18** Dydd Gwener Diwrnod trwynau coch: ymgyrch Comic Relief.

**MAWRTH 18** Dydd Gwener Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth am 4.00

**MAWRTH 19** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn Gŵr gwadd: Wynne Melville Jones yn y Ffarmers, Llanfihangel-y-Creuddyn.

**MAWRTH 20-21** Nosweithiau Sul a Llun Cyflwyniad Cwmni Morlan o BYD YR ADERYN BACH gan Hefin Wyn. Addaswyd y sgript ar gyfer y cynhyrchiad hwn gan Geraint Evans, Cyfarwyddwr y Cwmni. Waldo Williams yw thema'r cyflwyniad wrth gwrs, sydd hefyd yn cynnwys ffotograffau gan Iolo ap Gwynn a cherddoriaeth. Nos Sul am 6.00, nos Lun am 7.00. Mynediad: £2.

**MAWRTH 22** Nos Fawrth Bara Caws yn cyflwyno addasiad John Ogwen o Un nos ola leuad (Caradog Prichard) yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.30 Tocynnau: Tocynnau £7 oedolion; £6 henoed; £5 plant Falyri Jenkins 832 560

**MAWRTH 23** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor yn y Neuadd am 8.00.

**MAWRTH 24** Nos Iau Noson o ffilmiau yn Arad Goch, Aberystwyth.Tair ffilm ffantastig i'w gweld gan bobl ifanc Aberystwyth. Rhad ac am ddim. 5:00-6:00

**MAWRTH 25-6** Nosweithiau Gwener a Sadwrn Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Deffro'r gwanwyn yng Nghanolfan Hamdden Syr Geraint Evans, Aberaeron (Theatr Mwldan 01239 621200 yn gwerthu tocynnau)

**MAWRTH 26** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

**MAWRTH 26** Nos Sadwrn Cofiwch droi y cloc awr ymlaen.

**MAWRTH 27** Dydd Sul Diwrnod Cyfrifiad 2011

**MAWRTH 29 - EBRILL 1** Nosweithiau Mawrth i Gwener Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Deffro'r gwanwyn yng Nghanolfan Hamdden Glan Wnion, Dolgellau (Tŷ Siamas 01341 421 800 yn gwerthu tocynnau)

**MAWRTH 30** Dydd Mercher Eisteddfod Ddawns ac Aelwydydd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 1y.p

**EBRILL 1** Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 yb

**EBRILL 8-9** Dyddiau Gwener a Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch: nos Wener am 5.30; dydd Sadwrn am 12.30 a 6.30

**EBRILL 10** Nos Sul Rownd derfynol Côr Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth

**EBRILL 15** Nos Wener Cyngerdd i godi arian i Gronfa Tirion Lewis gyda Chôr Meibion Aberystwyth ac artistiaid lleol yn Neuadd y Penrhyn am 7.00. Arweinydd: Elen Pen-cwm. Trefnir gan Horeb Pris y Tocyn : Oedolion £5. Plant am ddim

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Chwefror 2011.**

£25 (Rhif199) Y Parchg Judith Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch
£15 (Rhif 86) Morris Morgan, Y Bwthyn, Penrhyn-coch.
£10 (Rhif157) Gordon Jones, Y Wern, Bow Street

Tynnwyd y rhifau buddugol gan y Golygydd, Ceris Gruffudd.
Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau Parti Plygain y Penrhyn yn dilyn Plygain Penrhyn-coch nos Iau yr 16eg o Ragfyr 2010. Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street os am fod yn aelod.
Gwelir rhestr o Gyfeillion y Tincer yn
http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

**Y Tincer ar dâp - Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angen-rhedirwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

<u>**Telerau hysbysebu**</u>
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

# DOLAU

### Casgliad Marie Curie

Diolch i drigolion y Dolau; cyfanswm y casgliad oedd £73.50 at yr elusen yma. Diolch i bawb a gyfranodd. Margaret Rees Seintwar.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Anna ac Elfyn Lloyd Jones, Tynant, ar enedigaeth merch fach - Gwenno Elfyn. Mae Lois Elfyn wrth ei bodd gyda'i chwaer fach newydd ac yn edrych ymlaen i chwarae gyda hi cyn bo hir.

# DÔL-Y-BONT

### Brysiwch wella

Anfonwn ein cofion at Gareth Morgan, Glenside, sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ystod y mis. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn Gareth.

D.S. Gofynnir yn garedig i chi lynu at y dyddiad cau fel y gwelir ef uchod. Nid oes sicrwydd y gellir cynnwys unrhyw ddeunydd sydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad cau. Gobeithir gallu cynnwys peth o'r deunydd gyrhaeddodd yn hwyr y mis yma yn rhifyn Ebrill.

# 30 Mlynedd 'Nôl



Bu Cangen Merched y Wawr, Rhydypennau, yn fuddugoliaethus mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd o dan nawdd Rhaglen Ddiwylliant Llyfrgell Dyfed nos Fercher diwethaf, Mawrth 10fed yn Felin-fach. Dramadeiddiwyd un o straeon Kate Roberts 'Hen bobol yn caru' gan Mary Thomas, Croesawdy, Llandre, a chwaraewyd hi gan aelodau'r Gangen. Yn y llun gwelir (o'r chwith) Trefor Williams (Beirniad), Rhiannon Roberts, Lina Davies, Linda Jones, Mary Thomas yn derbyn y wobr gan Gareth William Jones o'r Adran Ddiwylliant, Buddug Thomas, Margaret Thomas, Lowri Williams, Jean Davies. Yn eistedd: Mair Lewis, Beryl Hughes, Mary Thomas, Sal Magor, Margaret Rees, Dwysli Jones. Ar eu gliniau: Brenda Jones, Gwyneth M. Jones, Bet Evans. Da iawn chi ferched! Llun: Arvid Jones (o Dincer Mawrth 1981)

# 40 Mlynedd Nôl




Llun a dynnwyd ym 1961 pan enillodd Llandre y wobr am y pentref mwyaf glandeg yn Sir Aberteifi am y trydydd tro yn olynol. Yn y llun gwelir plant rhai o aelodau Sefydliad y Merched lleol ynghyd â swyddogion ac eraill gan gynnwys Mrs A. Raw-Rees, Llywydd Cangen Genau'r-glyn; Mrs M.B. Evans, Ysgrifennydd; Mrs Jane Ifor Jones, Llywydd y Sir; Mr T. Jones-Pierce, yr Uchel Siryf; Mr Dafydd Morris Jones, ysgrifennydd Pwyllgor y Pentref Glandeg; Mr William Jenkins, Cadeirydd Cyngor Dosbarth Gwledig Aberystwyth a Mr R. L. Jones, M.B.E., J.P., Llanilar. (o Dincer Mawrth 1981)

**CYSYLLTWCH Â NI**
ytincer@googlemail.com

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn
CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y
gorau ym Mhrydain



Llun: Arvid Parry Jones

## Clwb Strôc Aberystwyth a'r Cylch

Ar ddydd Mercher, 16 Chwefror, cyfarfu 34 o'r aelodau yng ngwesty'r Railway, Y Borth, i gynnal eu cyfarfod cinio misol. Yn ei hanerchiad dywedodd yr ysgrifenyddes gymdeithasol Mrs Audrey Evans, a'r cadeirydd Mr John Lewis Jones, pa mor dda ydoedd gweld ein cyn-gadeiryddes, ac erbyn hyn, ein hanrhydeddus gadeiryddes dros oes, Mrs Elsie Davies, yn bresennol yn y cyfarfod., gan mai hwn oedd y tro cyntaf iddi fynychu ein gweithgareddau ers iddi symud i fyw i Dregerddan, Bow Street. Gwnaethpwyd yr oll hyn yn bosibl drwy garedigrwydd Mrs Gwen Hughes, gwraig ein llywydd, y Dr Gareth Hughes, drwy ei chludo yno ag adref gyda hi. Drwy garedigrwydd fel hyn gan yr aelodau, y mae bodolaeth y clwb wedi bod mor llewyrchus dros y blynyddoedd.

Yna aeth y cadeirydd ymlaen i groesawu'r holl aelodau ynghyd a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth barhaol, a chan obeithio y byddai'r prynhawn yn un hapus dros ben i bawb.

Hefyd yn bresennol, yr oedd Mrs Wendy Morris Twiddy, yno i gyflwyno siec eithriadol o hael i'r clwb, yr elw a ddaeth, drwy iddi chael ei noddi yn y ras 10k a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn gynharach yn y flwyddyn. Yno gyda hi oedd aelodau o Fanc Barclays, yno oherwydd ei ymrwymiad gyda'r noddi.






# Y BORTH

### Cymdeithas Gymraeg y Borth

Cafwyd noson hynod ddiddorol ar 9 Chwefror gyda Mair Lewis yn llywyddu ac yn cyflwyno'r siaradwr gwadd, y Parchedig Ddr.Terry Edwards. Rydym yn gyfarwydd â Terry y pregethwr da ers blynyddoedd ond y tro hwn cawsom orig hyfryd yng nghwmni Terry y darlithydd yn Hel Atgofion am ei ddyddiau cynnar yn Aberystwyth. Cawsom gwrdd â rhai o gymeriadau'r dre yn enwedig ei gymdogion ym Morfa Mawr, megis y Parchedig G.Penrith Thomas a drigai y drws nesaf i Terry yn Llwyn-y-gog gyda'i nith Bronwen Pugh o Aberhosan. Tybed a fu'r hen Benrith yn un dylanwad a arweiniodd Terry i'r weinidogaeth?

Yn ôl yr arfer cafwyd Cinio Gŵyl Ddewi i gloi'r tymor ar 4 Mawrth, ac fel y llynedd roedd bwyd y Clwb Golff yn hyfryd. Croesawodd Mair Lewis y Llywydd, yr aelodau a chyfeillion eraill gan eu gwahodd i ymuno â'r Gymdeithas yn yr Hydref pan fyddwn yn cwrdd yn ein cartref newydd yn Neuadd gyfforddus y pentref. Ar ôl i Richard Lewis ddweud y gras ac i bawb gael eu digoni cyflwynodd Mair ein gŵr gwadd, y Prifardd Ceri Wyn Jones, Aberteifi, gan sôn am ei gyfraniad fel un o'n beirdd gorau, ei gyfnod yn athro a'i waith fel golygydd yng Ngwasg Gomer oddi ar 2002. Mae'n briod â Catrin ac yn dad i dri o fechgyn.

Meddwl am yr ymadrodd 'Ystad bardd, astudio byd' a wnawn wrth wrando ar Ceri Wyn yn defnyddio digwyddiadau a hanesion lleol yn ddeunydd pennill ac englyn. Er fod ei gyflwyniad yn hwyliog a llawn hiwmor roedd yna ddyfnder a neges yn y cerddi a glywsom. Mae Ceri Wyn yn gyfathrebwr gyda'r gorau a bu'i ddisgyblion yn Ysgol Dyffryn Teifi ar eu hennill o'i gael yn athro Saesneg. Mae mynychwyr ei ddosbarth cynganeddu yn cael yr un profiad cyfoethog. Ar wahân i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant roeddem yn dathlu buddugoliaeth nodedig y Refferendwm fydd yn cryfhau ein Cynulliad Cenedlaethol. Ar ei ffordd o Aberteifi i'r Borth lluniodd Ceri Wyn yr englyn trawiadol yma a gyflwynodd inni wrth gloi:

Mewn croese bychan eleni o sir
i sir fesul cyfri,
yn dawel clywais Dewi
yn dweud 'Ydw, Ydw i'.

### Swydd newydd i delynor a rhedwr

Penodwyd Dr Carwyn Tywyn yn Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undodiaid yng Nghymru ac fe fydd yn cychwyn ar ei swydd newydd ar Ebrill 1.

Bydd yn olynu'r Parch Eric Jones, Aberdâr sydd wedi bod yn ysgrifennydd ers nifer o flynyddoedd. Addysgwyd ef yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth a Phrifysgol Strathclyde, cyn cwblhau gradd doethuriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae hefyd yn fedrus fel telynor ac yn medru canu'r delyn deires yn ogystal â bod yn redwr brwdfrydig.

Mae'n edrych ymlaen i gydweithio gyda'r cynulleidfaoedd Undodaidd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd nesaf ac fe fydd yn cael ei gyflwyno'n swyddogol yng Nghynadledd Flynyddol Brydeinig yr Enwad sydd i'w chynnal ym Mhrifysgol Abertawe o Ebrill 15fed tan y 18fed.

Clywyd Carwyn ar y radio fore Iau 10 Mawrth yn sôn am ei CD sydd i fod allan erbyn diwedd Mawrth. Fe'i recordiwyd yng Nghanolfan Telyn Llandysul gyda Imogen O'Rourke (ffliwt) a



Morglawdd Y Borth



Ray Jones

Dan Morris (ffidil a mandolin) Bydd ei chynnwys yn hanner alawon traddodiadol, hanner rhai newydd nifer o'r alawon gwreiddiol yn gysylltiedig gyda thyfu i fyny yn Ysgol Penweddig tua diwedd y 1980au, gan gynnwys un alaw i goffau hen safle Penweddig ei hun. Arni mae Carwyn yn canu telyn deires a brynodd tua 2-3 mis yn ôl ar E_Bay.

### Gorsaf y Borth - Y diweddara!

Mae'r rheiny ohonoch sydd wedi dal y tren o Orsaf y Borth yn ddiweddar yn siwr o fod wedi sylwi ar yr holl waith sy'n digwydd yn yr hen swyddfa docynnau. Dyma'r cam cyntaf yn y broses o drawsnewid y dair stafell dywyll, diflas i Amgueddfa Gorsaf y Borth. Cafodd y nenfydau eu plastro , ond yr hyn sydd wedi gweddnewid y lle yw'r ffenestri newydd —mae na deimlad newydd cyffrous yno. Mae na lawer iawn o waith i'w wneud cyn cwblhau popeth, ac mae'r pwyllgor yn awyddus iawn i ddenu gwirfoddolwyr newydd. (Cysylltwch â Elin Hefin 871334 os allwch rhoi help llaw.)



### Artistiaid y Borth

**Artist y Mis - Eve Smith**
Rwy'n byw yn Leri Cottage ac yn gweithio yn y stiwdio/siop 'The Art House'

**Pam byw yn y Borth?** Oherwydd mod i'n caru'r lle! Ro'n i wastod eisiau byw ger y môr a daeth cyfle i neud hynny oherwydd caredigrwydd fy ffrind da Sarah Pugh. Roedd wedi bod yn freuddwyd gen i gael lle bach ar lan y môr erioed, gyda'r rhyddid i baentio fel y mynnwn, ac yn wir mae'r cyfan wedi ei wireddu, ac rwy'n aml yn teimlo mai fi yw'r person mwyaf lwcus yn y byd.

**Shwt fyddech chi'n disgrifio'ch gwaith?** Ymgais yw fy ngwaith i gyfleu amgylchedd Borth- y môr, yr awyr, y figyn, y mynyddoedd a'r twyni yng nghanol lliwiau y pedwar tymor.



**Pa hyfforddiant gawsoch chi?** Ges i ddim hyfforddiant ffurfiol, ond rwyf wedi mynychu dosbarthiadau Hywel Harries a Roy Marsden ers blynyddoedd ac rwy'n paentio'n ddyddiol fel rhan o fy hyfforddiant yn y gobaith fod fy ngwaith yn gwella.

**Beth yw'r dylanwadau ar eich gwaith**? Roedd fy nhad yn ddylanwad mawr arnai 'draftsman' wrth ei alwedigaeth, ac reodd yn gadael i fi ei helpu gyda'i baentiadau pan o'n i'n ferch fach, ac rwy'n dal i allu arogli'r paent olew yn ei hen focs paent. Atgofion hapus!

**Pwy ydych chi'n ei edmygu?** Cwestiwn anodd. Yr Iesu, Dalai Lama, Nelson Mandela, William Booth, heb anghofio fy rhieni. O ran artistiaid, rwy'n hoff o Turner ac arlunydd o'r enw Joan Eardley-arferai baentio plant tlawd Glasgow ac hefyd roedd yn hoff o fynd ar ei motorbeic a gyrru i arfordir Dwyreiniol yr Alban a phaentio'r tywydd mawr yng nghanol stormydd. Rwy'n dwli am ei gwaith ac wedi ceiso paentio yn yr awyr agored fy hun.

**Beth yw eich hoff enghraifft o'ch gwaith eich hun?** Y lluniau sy'n dal hanfod lle; y rhai mewn paent olew o dywyllwch yr awyr a'r môr. Dwi heb baentio fy hoff lun eto-ond mi wnaf!



Gŵr gwadd Cymdeithas Gymraeg y Borth - Ceri Wyn Jones gyda swyddogion y Gymdeithas – Mair Lewis (Llywydd), David Evans (Trysorydd), Llinos Evans (Ysgrifennydd) a John M. Hughes (Is-lywydd).



### Llongyfarchiadau

I Ceri Ashley (merch Gwenllian, Ocean Belle) ar gael swydd newydd gyffrous! Penodwyd hi'n Uwch Ddarlithydd yn Adran Archaeoleg Prifysgol Pretoria, De Affrica. Pob dymuniad da iddi ar ei menter newydd!

## Dysgwr y mis

**Beth yw eich enw?** Les Edwards

**Faint yw eich oed?** Rhy hen

**Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg?**Ers deng mlynedd erbyn hyn.

**Ble oeddech chi'n dysgu Cymraeg?** Yn wreiddiol yn y dosbarth nos gyda fy ffrindiau ym Mhen-y-bont ar Ogwr- fy mro genedigol.

**Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg?** Oherwydd mod i'n Gymro —sef y peth pwysicaf i fi. Mae iaith yn ganol i ddiwylliant, er ei fod yn iaith leiafrifol yng Nghymru, mae'r pethau bach yn bwysig-gwarchod y pethau bach.

**Pryd, neu gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg?** Dwi'n siarad Cymraeg â fy wyresau-Ffion Mali, Morwen ac Elen a chyda aelodau fy nheulu sydd wedi dysgu'r iaith. Mae bob taith hir yn dechrau gydag un cam a dwi wedi neud y cam cyntaf.



pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

# PIOD BOW STREET, 1949-50, A PHÊL-DROED YN Y BORTH AC YNYS-LAS



Tîm Gwersyll Milwrol Ynys-las, 1943-44



Tîm Gwersyll Milwrol Ynys-las a thîm y llong fasnach CAMROUX III, 1943-44.



Tîm y llong fasnach CAMROUX III, 1943-44.



Y gôlgeidwad Len Dennett yn chwarae ar gae Aberdyfi dros dîm llong fasnach CAMROUX III, 1943-44.

**Bow Street**

Wrth baratoi fy llyfryn diweddar *Caneris melyn* ar hanes clwb pêl-droed Trefeurig daeth cyfle yn ogystal i gasglu rhai manylion am dimau eraill yn ystod yr un cyfnod. Tra roedd Trefeurig yn brwydro'n galed yng ngwaelodion ail adran y gynghrair yn nhymor 1949-50, roedd Bow Street yn cystadlu mewn safon dipyn uwch o bêl-droed yn yr adran gyntaf, ac fel y gwelir o dabl terfynol y tymor roedd y *Piod* wedi dal eu tir yn gyfforddus ddigon yng nghanol y tabl.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberystwyth Rovers | 18 | 14 | 1 | 3 | 80 | 31 | 29 |
| Penparcau | 18 | 11 | 4 | 2 | 65 | 28 | 27 |
| Trefechan | 18 | 12 | 2 | 4 | 66 | 35 | 26 |
| YMCA | 18 | 10 | 1 | 7 | 41 | 38 | 21 |
| Bow Street | 18 | 8 | 2 | 8 | 58 | 55 | 18 |
| Tal-y-bont | 18 | 7 | 2 | 9 | 64 | 75 | 16 |
| Tregaron Turfs | 18 | 7 | 1 | 10 | 49 | 45 | 15 |
| British Railways | 18 | 6 | 3 | 10 | 50 | 52 | 13 |
| Borth United | 18 | 4 | 2 | 12 | 28 | 71 | 10 |
| Padarn United | 18 | 1 | 1 | 16 | 31 | 97 | 3 |

Ffynhonnell: www.wdfa.co.uk

Nodir yng nghofnodion y gynghrair fod y bechgyn canlynol wedi'u cofrestru i'r tîm yn ystod y tymor hwn, ac yn eu plith ceir nifer o enwau cyfarwydd i ddarllenwyr *Y Tincer*, yn cynnwys Llywydd a Llywydd Anrhydeddus presennol y clwb, sef Mr D. Emlyn Rees a'r Arglwydd Elystan- Morgan. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt bellach wedi ein gadael, ac yn eu plith mae'r diweddar Meirion Hughes, a fu hefyd yn cynrychioli clwb Trefeurig.

Evans, Rhys, Llys Afan, Bow Street
Fleming, Haydn, Glanrafon, Bow Street
Hughes, David Eric, Nantyfallen, Bow Street
Hughes, J. Meirion, Penrhiw, Bow Street
Hughes, W. Gwynfor, Aventine, Cliff Terrace, Aberystwyth
Jenkins, D. H., Hazeldene, Bow Street
Jenkins, Dan, Frongoch Farm, Aberystwyth
Jenkins, J. R., Hazeldene, Bow Street
Jones, Eric O., Hazelmere, Aberystwyth
Jones, Frederick F., The Mill, Capel Bangor
Jones, T. Gwynn, 17 Bridge Street, Aberystwyth
Lewis, Trevor, Penrhiw, Bow Street
Macdonald, Thomas [Henry], Nantyfallen, Bow Street
Millichamp, R. I., Brodawel, Bow Street
Morgan, Dafydd Elystan, Cartref, Pen-y-garn
Pritchard, G. P., Portland Street, Aberystwyth
Pugh, David, Spring Cottage, Bow Street
Rawlins, G. E., Cliff Haven, Y Borth
Rees, Cyril, Morlais, Bow Street
Rees, David Emlyn, Morlais, Bow Street
Roberts, Raymond, Tregar, Bow Street
Williams, David J., Cyfanwel, Waun, Aberystwyth
Williams, I. Ellis, Gwyldwr, Llanbadarn Fawr
Williams, William Wynne, Dôl-y-bont

Tybed oes llun o dîm 1949-50 yn bodoli?

**Y Borth**

Mae hanes diddorol hefyd i bêl-droed yn y Borth a'r Ynys-las. Chwaraewyd y gêm yn y pentref ar ddiwedd y 19ed ganrif, ac roedd Borth United, fel Bow Street, yn un o sylfaenwyr y gynghrair leol yn 1934. Yn ogystal, bu tîm o'r enw *The Gunners* o Ynys-las hefyd yn chwarae yn y gynghrair rhwng 1937 a 1939. Gobeithiaf lunio llyfryn byr ar hanes cynnar y timau hyn, a byddwn yn falch i glywed gan unrhyw un sydd â gwybodaeth neu luniau perthnasol:

Wrth holi hanes y Borth, derbyniais gymorth caredig gan Mr Len Dennett, Heol Rhydygarreg, a fu'n chwarae dros Borth United ar ôl y rhyfel. Bu Len yn ddigon caredig i rannu rai lluniau yn cynnwys ffotograffau o dîm Gwersyll Milwrol Ynys-las a thîm y llong fasnach Camroux III a weithredai o Ynys-las. Bu'r ddau dîm yn chwarae gêmau cyfeillgar rheolaidd yn ystod y rhyfel yn erbyn gwersylloedd eraill yn ne Meirionydd yn cynnwys Arthog, Y Bermo, Llwyngwril, Peniarth, Tonfannau ac Ynysmaengwyn, a Len oedd ei gôlgeidwad disglair.

Atgynhyrchir y lluniau uchod drwy ganiatâd caredig Mr Dennett. Tybed oes rhywun yn medru enwi'r chwaraewyr?.

Richard E. Huws, 01970832566 / rehuws@aol.com



# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

### Saff ar ôl trychineb

Gwelwyd Gareth Jenkins, mab Alun a Mair Jenkins, Pandy, ar y rhaglen Wedi Tri yr wythnos diwethaf yn siarad o Omuta-shi yn ne Japan. Da oedd deall ei fod a'r teulu yn iawn ar ôl y ddaeargryn fawr gafwyd yn y wlad.

### Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Bleddyn a Sharon Jones, Bronallt, ar enedigaeth mab bach newydd ar yr ail o Fawrth, brawd bach i Tomi. Bydd Tyllwyd yn saff o ffermwyr bach i'r dyfodol !

### Gwerthfawrogiad

Braf iawn oedd cael y cyfle unwaith yn rhagor am y 7fed flwyddyn yn olynol, i wahodd ffrindiau i Dolcniw ar 26ain o Chwefror, i weld y lili wen fach. Cafodd bawb gyfle i fwynhau paned a sgwrs, cyn mynd am dro i werthfawrogi y prydferthwch o amgylch.

Diolch i bawb am gynorthwyo'r digwyddiad ac am eich cyfraniadau hael. Eleni, elusen Plant Dewi sydd yn elwa, ac erbyn hyn mae y swm wedi ymestyn i £126. Diolch o galon i chi i gyd oddi wrth Lis a Meic Colleson, Dolcniw, Blaengeuffordd.

### Ymddeoliad

Fel y gŵyr llawer ohonoch, mae Mrs Christine Charlton, prif athrawes ysgol Pen-llwyn yn ymddeol ar ddiwedd y tymor, ar ôl 18 o flynyddoedd. Cynhelir parti ffarwel iddi, ar ddydd Sadwrn Mai 7fed yn Neuadd y Pentref, yn cynnwys bwyd ysgafn a chyngerdd. Croeso i gyn ddisgyblion a chyn rieni yn ogystal a'r rhai presennol. Mae Mrs Helen Lewis, Glanrheidol, yn casglu cyfraniadau tuag at ei anrheg gadael. Bydd Mrs Emma Par-Davies hefyd yn fodlon derbyn rhoddion os ydyw hynny yn fwy cyfleus.

### CYFARFOD BLYNYDDOL NEUADD PEN-LLWYN

Cynhelir y cyfarfod uchod yn Neuadd Pen-llwyn ar **nos Fercher 23ain, Fawrth** am 8.00yh.

Mae Pwyllgor y Neuadd yn erfyn ar i drigolion y pentre fynychu'r cyfarfod hwn a dangos diddordeb yn y Neuadd. Dymuna'r Pwyllgor atgoffa'r rhai sy'n gwneud defnydd o'r Neuadd ei fod yn rhan o'r cytundeb llogi i bob mudiad anfon cynrychiolydd i eistedd ar y Pwyllgor.



### Diolch

Dymuna Anne, Delyth a Iona, Maencrannog, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu colled ddiweddar.

Gwerthfawrogwyd yn fawr y galwadau ffôn, yr ymweliadau, y llythyron a'r cardiau. Mae pob gair a gweithred garedig wedi bod yn gymorth yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Diolch hefyd, am y cyfraniadau tuag at Uned Monitro'r Galon, Ysbyty Bron-glais, cyfraniadau sydd bellach wedi cyrraedd cyfanswm o £1,700.

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Ar noson Gŵyl Ddewi daeth nifer o aelodau'r gangen ynghyd i westy'r Marine. Fe'n croesawyd yno gan ein llywydd, Angharad Jones. Adroddwyd y gras bwyd gan Heulwen Lewis. Mwynhawyd pryd blasus o fwyd oedd yn cynnwys cawl a tharten afalau.

Cyflwynodd Angharad ein gŵr gwadd, sef Dai Jones, Llanilar. Roeddem yn ffodus iawn o gael ei gwmni ac yntau'n ŵr poblogaidd a phrysur. Clywsom ganddo am ei brofiadau yn diddori gydag eraill mewn cyngherddau, cyngherddau a aeth ag ef i bedwar ben byd. Roedd yn ddiolchgar am y cyfloeoedd a gafodd wrth deithio ledled Cymru a thu hwnt i baratoi cyfresi Cefn Gwlad. Soniodd am ei helyntion yn Kenya ond roedd yn amlwg ei fod yn edrych ar ei ymweliad â Phatagonia fel yr un mwyaf cofiadwy. Er iddo fynd â ni ymhell o Gymru, nid anghofiodd am ei wreiddiau a chawsom ambell stori ganddo am ei ddyddiau ysgol ac am gymeriadau o Langwyryfon, ardal a oedd yn ei farn ef yn gyfoethog o gymeriadau. Roedd Dai Jones yn ddiolchgar iawn am y caredigrwydd a estynnwyd tuag ato ef wrth iddo ymweld ag amrywiol lefydd.

Diolchwyd i'r gŵr gwadd am ei sgwrs ddiddorol gan Angharad. Liz Collison a Megan Isaac a enillodd y gwobrau raffl.

### NEUADD PEN-LLWYN CAPEL BANGOR

Wele ganlyniadau Clwb 100 y Neuadd uchod.....

Rhagfyr 2010
£20.00 —44 — Mrs Sian Spink, 1 Cefn Melindwr, Capel Bangor
£10.00 — 23 — Mr Elwyn Jones, Fferm Abercwmdolau, Blaengeuffordd , Capel Bangor
£5.00 — 42 — Mrs Liz Collison, Dolcniw, Blaengeuffordd , Capel Bangor
£5.00 — 29 — Mrs Arnold Evans, Ardwyn, Blaengeuffordd , Capel Bangor

Ionawr 2011
£20.00 —39 — Ms Rosemary Fletcher, Gofal Ty'n Cwm Livery Stables, Capel Bangor
£10.00 — 56 — Mrs Myfanwy Thomas, Fferm Troedrhiwlwba, Capel Bangor
£5.00 — 78 — Mr Jonathan Lewis, Brynllys , Capel Bangor
£5.00 — 62 — Mrs Margaretta Jones, Fferm Tyllwyd , Capel Bangor

Chwefror 2011
£20.00 —20 — Mrs Brenda Evans, Murmur y Nant, Capel Bangor
£10.00 — 89 — Mrs Janet Heather James, Pendre, Llanbadarn Fawr
£5.00 — 78 — Mr & Mrs M James, Afallon, Capel Bangor
£5.00 — 62 — Mrs Margaret Powell, Stad Pen-llwyn , Capel Bangor





GWASANAETH TEIPIO

CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS

FFON: 01970 828693
E-BOST:
daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk

Y TINCER

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gareth a Alice, Tŷ Capel, Aber-ffrwd ar enedigaeth ei mab, brawd bach i Gwenan.

### Croeso

Croeso mawr i Maes Gamlyn, Aber-ffrwd, i Elen, Marc, Seren a Rhydian sydd wedi dod i fyw yno o Lanbadarn.
Mae yn hyfryd iawn i weld teulu ifanc yn symud i'r ardal a braf yw gweld nifer y plant yn yr ardal yn cynyddu.

### Brysiwch wella

Dymuniadau gorau i Margaret Davies, Aran Deg gan iddi dreulio peth amser yn yr Ysbyty ar ôl anffawd yn ei chartref.

### Urdd y Benywod

Cynhaliwyd ein Noson Gawl flynyddol ar nos Lun Chwefror 28ain. Bu Nancy, Gwen a Norma yn brysur yn paratoi y cawl eleni eto a chroesawodd Norma pawb yn gynnes iawn. Ar ôl bwyta cawsom ein diddanu gan Delyth Morris Jones a'i chefnder Jonathan Gully o Gapel Bangor. I orffen y noson cawsom hanes Cotiau Coch Gogerddan gan Gwen Morgan a Mair Stanleigh. 'Roedd yn noson wir Gymreig i ddathlu gŵyl ein Nawddsant ac mi 'roedd maint y gynulleidfa yn galonogol iawn.

### Clwb Rheidol

Yn ddiweddar cynhaliwyd noson arbennig yn adaeilad Tŷ Llwyd i ail lawnsio Clwb Rheidol. Daeth nifer o bobl yr ardal ynghyd ac mi 'roedd yna dipyn o frwdfrydedd i weld defnydd yn cael ei wneud o'r cyfleusterau gwych sydd yn yr adeilad. Bydd yna noson Glwb yn cael ei chynnal ar nos Wener olaf o bob mis ond mae croeso i unigolion ddefnyddio y lle ar unrhyw amser. Os ydych am fwy o fanylion cysylltwch â John Marshall 880529 neu Gareth Daniel 880691.

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

### Suliau Ebrill

Madog 2.00
3 Bugail
10 Delyth Morgans
17 Lyndon Lloyd
24 Oedfa'r Ofalaeth — Y Pasg

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Graham Edwards, Delfryn, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Singleton, Abertawe.

### Ar y teledu

Bu Erwyd Howells, Tŷ Capel, ar ddwy raglen S4C, O'r Galon a Cyfnewid. Dangosodd ei gasgliad o hen offer amaethyddol a bu hefyd yn siarad am fywyd y bugail gan mai Erwyd yw'r olaf o'r hen fugeiliaid traddodiadol yng Nghymru.

**ytincer@googlemail.com**

# CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 24 Chwefror yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. Owain Morgan. Mynegwyd pryder o ddeall fod fandaliaeth ar gynnydd unwaith eto ym mhentref Bow Street gyda eiddo yn cael ei ddifrodi yn ogystal a thorri i mewn i eiddo preifat gan adael dinistr ar eu hôl. Gan fod cyfarfod y PACT ar 2 Mawrth bydd y sefyllfa druenus hon yn cael ei thrafod gyda'r heddlu. Gofynnir i rieni ieuenctid yn eu harddegau fod yn ymwybodol o'r sefyllfa.

Dywedodd y clerc fod yna gamddealltwriaeth wedi codi ymysg rhai trigolion yr ardal parthed Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion a ddaeth i'r golwg yn ddiweddar. Pwysleisir mai awgrymiadau am leoedd i adeiladu tai sydd yn y cynllun yn unig, ac nid ceisiadau pendant i'w datblygu.

Derbyniwyd adroddiadau gan y Cynghorydd Sir, Paul Hinge. Yr oedd wedi derbyn cwynion am gyflwr toiledau y neuadd, sef bod angen eu glanhau, a symud y graffiti oddi ar y waliau. Gan fod hyn yn fater difrifol penderfynwyd hysbysu pwyllgor y neuadd ar unwaith.

Dynwedwyd fod y pwyntiau a godwyd gan y Cyng. Meinir Lowry yn y cyfarfod diwethaf parthed cael mynediad newydd i Ffordd Clarach wedi eu derbyn gan y swyddogion priodol yn y Swyddfa Sir.

Datgelodd fod amryfusedd yn bod parthed y llwybr troed sy'n rhedeg drwy ganol rhan gyntaf o Dregerddan. Nid yw bellach yn lwybr cyhoeddus fel ag y bu, ond mae rhywrai mewn swyddfa rhywbryd heb ddynodi hynny ac nid yw wedi ei gofresru. Symudwyd hwn o'i le gwreiddiol er mwyn hwylustod wrth adeiladu yr ystad, a hyd nes ceir ateb gan y Cyngor Sir a Thai Ceredigion, y mae mewn sefyllfa tebyg i'r hyn sydd yn digwydd ym Maes Afallen.

Ar hyn o bryd, dywedodd y Cynghorydd fod sefyllfa y parc tu ôl i Wern Deg yn nwylo swyddogion y Sir.

Ac ar ddechrau mis Mawrth bydd Dŵr Cymru yn edrych mewn i broblemau carthffosiaeth Bow Street. Ar hyn o bryd, fel y crybwyllwyd droeon, mae pob datblygiad yn yr ardal wedi eu hatal, yn cynnwys Penrhyn-coch a Chomins-coch oherwydd y diffygion. Unwaith eto gwnaed y sylw fod y garthffosiaeth wedi llifo droeon i afon Clarach ond nad oedd neb wedi eu galw i gyfri. Petae ffermwyr neu ddiwydianwyr yn gyfrifol am lai, byddent yn y llys cyn brecwast! Diolchwyd i'r Cynghorydd Hinge am ei adroddiad.

Doedd gan y cyngor ddim gwrthwynebiad i gais cynllunio gan Bentre Gwyliau Bae Clarach i newid defnydd darn o dir a'i ddatblygu, cyn belled ei fod yn harddu tipyn ar olwg y lle.

Roedd yna nifer wedi mynegi bodlonrwydd fod y fynedfa i Fryncastell wedi gwella yn arw ar ôl clirio'r gor-dyfiant. Bydd y cyfarfod nesaf ar 31 Mawrth.

O dan y môr a'i donnau, Mae llawer dinas dlôs, Fu'n gwrando ar y clychau, Yn canu gyda'r nos...
oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GAREJ CWRT
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor 8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
PENRHYN-COCH ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth 820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# LLANDRE

### Treftadaeth Llandre

Mawrth 31 — Iolo Morganwg, Yr Athro Geraint Jenkins
Ysgoldy Bethlehem, Llandre
7.30yh.

### Noson Goffi

Grŵp Crefft Genau'r-glyn
8fed Ebrill 2011
7-8 yr hwyr
Elw at Bethlehem a Henoed Bow Street a Llandre
Stondinau amrywiol ac arddangosfa grefft.
Tâl mynediad £1
Croeso i bawb

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mari Davies, Dolawel ar dderbyn Gradd Uwch mewn Astudiaethau Cyfieithu.

### Croeso adre

Croeso adre i Ellen Cridge, Junis, Lôn Glanfred ar ôl derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Croeso

Croeso i Steve, Jane, Mathew ac Oliver sydd wedi symud i Linton, Lôn Glanfred. Gobeithio byddant yn hapus yn eu cartref newydd.

### Cofion

Dymuniadau gorau i Camwy Williams, Llwyn, sydd ddim wedi bod yn hwylus yn ddiweddar.
Hefyd i Gwladys Jones, Bronberllan sydd wedi symud i Gartref Cwmcynfelin.

### Penodi Ficer newydd

Penodwyd y Parchg Peter Jones yn 0ffeiriad gyda gofal dros Eglwysi Genau'r-glyn, Tal-y-bont a Llangorwen yn ddiweddar. Mae ar hyn o bryd yn Giwrat ar dair eglwys yn Hubberston, Aberdaugleddau, yn Sir Benfro. Mae ef, ei wraig a'i ferch ddeg oed yn edrych ymlaen i symud i'r Ficerdy i Maes- y-Garn.

Cynhelir y cyfarfod ordeinio yn Eglwys Llangorwen ar Fai 16eg am 7.30 o'r gloch

### Merched y Wawr, Genau'r-glyn

Bu Mrs Enid Jones, Bow-Street, yn rhannu ei hatgofion o fod yn nyrs â ni yn ein cyfarfod ym mis Ionawr. Cawsom gyfoeth o wybodaeth am ei dyletswyddau yn nyrs dan hyfforddiant yn Lerpwl i ddechrau, yna yn nyrs mewn ysbyty ac yn ddiweddarach yn nyrs ardal. Roedd ei hoffter brwdfrydig o'i gwaith, yn enwedig yn y wardiau gofal dwys, yn ysbrydoliaeth, a'r pytiau o'i hiwmor nodweddiadol a'i gwên gynnes yn ysgafnhau'r cyfan. Mae'n siŵr bod aml i glaf wedi cael cysur mawr o fod dan ei gofal.

Cynhaliwyd ein cinio Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff y Borth ar Chwefror 21ain, gyda Mr John Morris, Glancarrog Llanrhystud, yn ŵr gwadd. Wrth ei gyflwyno soniodd y Cadeirydd, Llinos Dafis, ei fod wedi bod yn weithgar iawn gyda chlybiau'r Ffermwyr Ifainc pan oedd yn ifanc, ac roedd nifer o'r rhai oedd yn bresennol yn ei nabod oddi ar y dyddiau hynny. Roedd nifer dda o aelodau'r gangen wedi dod ynghyd, ac fe gafwyd anerchiad difyr ac amserol.

### Anrhydedd

Yn y llun a dynnwyd ar 19 Chwefror 2011 gwelir Llŷr ap Iolo ar un o beiriannau stem Rheilffordd Eryri ar ôl cyrraedd Porthmadog o Gaernarfon a hynny ar amser. Ymhen ychydig wedi tynnu'r llun gyrrodd Llŷr y tren yn ôl i Gaernarfon trwy brydferthwch Bwlch Aberglaslyn, Beddgelert a Rhyd-ddu.



Cafodd Llŷr, sydd yn byw'n Lôn Glanfred, Llandre yr anrhydedd o yrru y tren cyntaf yn ystod penwythnos agor y lein i'r cyhoedd yr holl ffordd trwodd o Gaernarfon i Borthmadog. Bu diddordeb gan Llŷr mewn peiriannau stem a hen beiriannau fferm ers dyddiau ei blentyndod a bu'n gyrru ers blynyddoedd bellach ar reilffyrdd Rheidol, Ffestiniog ac Eryri. Y mae'n rhedeg ei gwmni peirianyddol ei hun sef 'Peirianwaith Llŷr' ac y mae galw mawr am ei arbenigedd fel peiriannydd. Y mae'n gwneud gwaith cyson i'r dair rheilffordd a enwir uchod yn ogystal ag adfer hen beiriannau yn ei weithdy.

Adeiladwyd y peiriant a welir yn y llun, a adnabyddir fel 'K1', gan Gwmni Beyer Peacock yn Gorton, Manceinion ym 1909 ar gyfer rheilffordd yn Nhasmania fel yr injan gyntaf o'r math enwog 'Garratt' i gael ei hadeiladu. Gan fod hon yn injan mor hanesyddol daeth y cwmni a'i hadeiladodd â hi yn ôl i Brydain ym 1947 a'i chadw yn ei ffatri. Fe'i prynwyd yn 1966 gan gwmni Rheilffordd Ffestiniog, perchnogion Rheilffordd Eryri. Yna yn 1976 fe aeth ar fenthyg i'r amgueddfa rheilffyrdd enwog yn Efrog cyn dod oddi yno yn 1995 mewn paratoad ar gyfer cael ei hail-adeiladu a'i hadfer i weithio ar Reilffordd Eryri lle y mae yna hefyd enghreifftiau eraill, diweddarach, o'r math yma o beiriant yn gweithio. Yn ddiweddar gwnaeth Llŷr gyfraniad allweddol i'r gwaith o adfer yr injan ac addasu a gwella ei chyflwr mecanyddol.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w
lladd mewn
lladd-dy lleol
Cysylltwch â
Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

Y TINCER
ytincer@googlemail.com

SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

# PENRHYN-COCH

## Suliau Ebrill

**Horeb**
3 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
10 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
17 2.30 Oedfa bregethu Delyth Morgans
24 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

**Salem**
3 10 Undebol yn Noddfa Bow Street
17 2.00 Miss Beti Griffiths
22 10.00am Cymun Gwener y Groglith ym Methel Tal-y-bont
24 10 a 2 ym Methel Tal-y-bont Y Parchg John Gwilym Jones

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 13 a 27, Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Ennill gradd

Llongyfarchiadau i'r Parchg Judith Morris ar ennill gradd ymchwil M. Th. ym Mangor.

## Gwefan Trefeurig

Yn ddiweddar ychwanegwyd at y wefan restr beddargraffiadau Siloa, Cwmerfyn; Capel Madog a Chofebau'r Plwyf - rhestrau a baratowyd gan Auronwy James, Cae Mawr. Gellir eu gweld yn http://www.trefeurig.org/index.php

## Ymddeoliad hapus

Dymuniadau gorau i Paul Morgan, Cwrt, ar ei ymddeoliad o Gyngor SIr Ceredigion


**Cyngerdd**
i godi arian i
**Gronfa Tirion Lewis**
15fed Ebrill 2011
yn
**Neuadd Penrhyn-coch**
am 7yh

Yng nghwmni Côr Meibion Aberystwyth, Elen Pencwm, ac eraill.

Llywydd y Noson:
Y Parchedig Peter Thomas
Pris y Tocyn : Oedolion £5.
Plant am ddim


## Neuadd y Penrhyn

Mae aelodau Pwyllgor Neuadd y Penrhyn yn y broses o wneud cais i'r Cynulliad am grant i osod to newydd ar y Neuadd ,yn ogystal â gwellianau mewnol ac allanol. Fel rhan o'r cais mae angen dangos fod trigolion y Plwyf yn cefnogi 'r cais. A fyddech cystal a llofnodi'r ddeiseb, sydd ar gael yn Swyddfa'r Post, Penrhyn-coch, , Garej Tymawr, neu'r Clwb Pêl-droed a Chymdeithasol Penrhyn-coch. Yn ogystal mae croeso i chi ddanfon llythyr o gefnogaeth i'r Ysgrifenyddes- Ann James, Pen-banc, Penrhyn-coch.SY23 3ER

## Cydymdeimlad

Cydymdeimwn a'r Parchedig Wyn Rh. a Judith Morris, Berwynfa, ar eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw mam Wyn, yng Nghaerfyrddin ddydd Gwener, 18 Chwefror.

## Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

Cynhaliwyd Cyngerdd Croeso Cynnes penigamp yn Eglwys Sant Ioan ar brynhawn Sul 27ain Chwefror. Croesawyd y gynulleidfa niferus gan Mrs Edwina Davies, yna darlleniad o'r ysgrythur gan Mrs Lona Jones a gweddïau gan y Parchedig Ronald Williams. Cawsom wledd o gerddoriaeth gan ddechrau gyda thalentau medrus Mr Brian Sansbury ar y clarinét. Yn ystod y prynhawn bu hefyd yn perfformio deuawd gyda Miss Mared Pugh Evans ar y delyn, dyma ferch ifanc y gwelir dyfodol disglair iddi fel telynores ac yn ffodus iawn o'i hamser. Yna lleisiau swynol y ddeuawd Mrs Eleri Roberts a Mr Trevor Pugh gyda chyfeiliant y gitâr. Yr unawdydd oedd Mrs Glenys Jenkins, aelod o'r eglwys, a chanodd yn ddigyfeiliant yn ystod y rhan gyntaf o'r cyngerdd a gyda chyfeiliant Mrs Heddwen Evans yn ystod yr ail ran. Mr Glyn Collins fu'n talu'r diolchiadau i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at y prosiect o godi arian tuag at y system wresogi newydd sydd nawr mewn bodolaeth. Estynnwyd gair o ddiolch i'r Cynghorydd Haydn Lewis am fod yn bresennol a hefyd i Mrs Meinir Davies, Cynorthwyydd Cyfrifeg (Grantiau) Cyngor Sir Ceredigion, Mr Ken Edwards, Mr Brian Sansbury, Mr Neil Cooke a Mr Alun Hughes, y sawl a fu'n gyfrifol am osod y system. I gloi'r cyngerdd, traddodwyd y fendith gan y Parch Ronald Williams ac fe ganwyd yr emyn Pantyfedwen gan y gynulleidfa gyda chyfeiliant Mrs Marianne Powell wrth yr organ.




Llun: Einion Dafydd

Don Hutton, Maes-y-felin, yn gadael Neuadd y Penrhyn ar ôl pleidleisio yn y Refferendwm ar 3 Mawrth.

## Bwyd ar y teledu

Bu Olly Smith gyda'i raglen The Secret Supper Club (Channel 4) yn Llangrannog yn ddiweddar. Gwelwyd nifer o gyflenwyr bwyd lleol yn cynnwys Mansel Beechey ddaliodd gorgimychiaid ar ei gyfer — hefyd Dilys Morgan, Allt-goch a Robert Rattray.

Gellir gweld y rhaglen am rai wythnosau eto ar y wefan http://www.channel4.com/programmes/the-secret-supper-club/4od#3167831

## Cymdeithas y Penrhyn

Pleser oedd cael croesawu Keith Morris, y ffotograffydd i'n cyfarfod fis Chwefror. Mae Keith yn wyneb cyfarwydd nid yn unig i ni yn ardal Aberystwyth ond drwy Gymru benbaladr. Bellach bu'n ffotograffydd proffesiynol ers dros 30 o flynyddoedd.

Gwelsom wledd o bortreadau o bwysigion Cymru o'r 70au cynnar gan gynnwys Dai Jones, Hywel Bennett, Derec Llwyd Morgan, Islwyn Ffowc Elis, Bryn Terfel, a bwysleisiodd dro ar ôl tro mai gweithio gyda phobl sy'n rhoi'r mwynhad mwyaf iddo.

Aeth â ni wedyn ar daith yn ôl i Aber y 70au a'r 80au i weld adeiladau o bwys sy' bellach wedi eu dymchwel. Cychwynnodd gyda'r 'Ysgubor' cartref i bedwar cwmni theatr ar un adeg, a'i weithle ef, lle bu cymeriadau megis Ruth Jên a Lyn Ebenezer



## Cylch Meithrin Trefeurig

Ar ôl bore prysur yn canu ac chael stori am Dewi Sant mae y plant yn mwynhau eistedd i gael blasu'r danteithion. Yr ydym wrthi yn ymarfer at Eisteddfod y Penrhyn y mis nesaf.

yn ymwelwyr cyson. Ymlaen at Neuadd y Brenin, y Pier, Capel Seilo, Ysbyty Heol y Gogledd, y stesion a'r iard lo, a'r mart. Yr oll yn hanesyddol bwysig ac yn peri i rai ohonom deimlo'n reit hiraethus!

Caiff dipyn o waith comisiwn gan sefydliadau fel Cambrensis, y Cynulliad a Golwg, ac mae hefyd yn arbenigo mewn ffotograffiaeth briodasol. Eto, teimla'n ffodus i ennill bywoliaeth gyda gwaith sy'n rhoi gymaint o foddhad iddo.

Cawsom orig ddifyr iawn yng nghwmni gŵr sy'n feistr ar ei grefft.

Hyd Fawrth 19 mae arddangosfa o'i waith 'Dyma Aber '86' i'w gweld yn Amgueddfa Ceredigion. Ewch yno — mae'n werth ei gweld!

## Diolch

Hoffai Tony Moyes, 13 Cae Mawr, ddatgan ei ddiolch i ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad ers marwolaeth Margaret, ei wraig.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Ar nos Iau'r 10fed o Chwefror fe groesawodd ein Llywydd Glenys Morgan ni i'r cyfarfod, ac fe wnaed y busnes arferol o fynd trwy'r ohebiaeth ac yn y blaen a ddaeth i law yn ystod y mis. Yna fe groesawodd ein gŵr gwadd, sef Michael Morgans, MBE o Felin-fach sydd yn baramedig gyda Sant Ioan. Fe fu yn sôn am ei waith ac fel roedd Cymorth Cyntaf yn rhan hanfodol o'i waith, a'r llawer erchyll bethau oedd wedi'i weld ac yn gorfod ymwneud â nhw. Ar ôl blynyddoedd lawer yn y gwaith yr oedd yn dal i ddysgu gwahanol sgiliau i ymdopi â'i waith. Yn anffodus yr ydym ni yn aml yn cymryd mantais o bobl fel hyn heb i ni gydnabod y gwaith mawr maent yn eu gwneud. Diolch am agoriad llygad fel hyn ambell waith i wneud i ni sylweddoli gwaith ardderchog mae Michael a'r criw yn ei wneud bob dydd, ac yn wir yn haeddu'r MBE mae wedi'i dderbyn. Noson wych. Diolchwyd iddo yn swyddogol gan Mairwen ac yna tynnwyd y raffl fisol a diweddu'r noson gyda chwpanaid cyn mynd tua thre.

## Croeso

Croeso i'r teulu bach sydd wedi symud i 1 Tan-y-Berth. Mae yna dipyn o fynd a dod yn y pentre ar hyn o bryd. Dymuniadau gorau i bawb. A dymuniadau da i Kirsty a Carwyn a'r plant yn eu cartref newydd, "Cwm Ywen".

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Vicky Davies, 10 Tan-y-Berth ac Eben Jones, Bodorgan sydd wedi dyweddïo.

## Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Ann Jones, 12 Tan-y-Berth, sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

Cofiwn hefyd am Tom Davies, Awel y Coed, Bro Gynin sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.

## Diolch

Dymuna Mona Edwards, Hafod, ddiolch yn fawr i'w theulu ac i bawb am eu dymuniadau da drwy alwadau ffôn, cardiau ac anrhegion ayyb a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd yn 80 ar y 19eg o Chwefror. Diolch yn fawr.

## Eisteddfod y Penrhyn

Cofiwch bawb am ein heisteddfod ym Mhenrhyn-coch ar yr 8/9fed o Ebrill 2011. Mae'n hanfodol bod ein heisteddfodau bach leol yn cael cefnogaeth er lles yr iaith a bod cystadleuwyr i gyd yn cael chwarae teg. Rydym yn cael gwledd o ganu a llefaru ac mi allwn eich sicrhau y cewch werth eich arian.

## Goleuadau'r Stryd

Mae yna dipyn o stwr yn mynd ymlaen yn y pentre ar hyn o bryd. Mae y goleuadau stryd yn poeni llawer o'r trigolion. Mae yna brinder ohonynt yn y pentre ond o'r rhai sydd ar gael, mae nhw arno yn ystod y dydd a ddim yn y nos pan fydd eu hangen. Mae Glanceulan a'i goleuadau wedi bod arno yn y dydd am amser ac mae'n llwyr dywyllwch drwy'r nos. Ac mae'r un peth yn wir am rai o oleuadau Maesyrefail. Nid oes neb yn cymryd sylw o'r cwynion hyn. Mae'r trethi yn codi a'r gwasanaeth yn wael!

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Caryl Thomas. merch Brian a Mary Thomas, Llys Myrddin, ar ei dyweddiad â Paul Lawrence o Lanafan Fawr. Dymuniadau gorau iddynt



## Einion yn ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Einion Dafydd, Rhandir. Dyfarnwyd iddo y Wobr am y marc uchaf ym mhedair adran y Gyfadran Wyddorau Cymdeithasol am y flwyddyn academaidd 2009-10. Ar ôl graddio yn Aberystwyth gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Gwleidyddiaeth Rhyngwladol gydag Almaeneg, treuliodd Einion y flwyddyn yn astudio am radd MscEcon mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol Dywedodd Deon y Gyfadran Wyddorau Cymdeithasol , Yr Athro Len Scott 'Mae llwyddiant Einion yn adlewyrchu perfformiad rhagorol yn ei astudiaethau ol-radd

Yn y llun gwelir Einion gyda'r Athro Mike Foley, Pennaeth yr Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol (hefyd o Benrhyn-coch), Yr Athro Noel Lloyd, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth a'r Athro Len Scott, Deon y Gyfadran Wyddorau Cymdeithasol.

Mae Einion ar hyn o bryd yn gweithio ar draethawd PhD sydd yn astudio Aelodau Seneddol Ewrop.

## Sioe Penrhyn-coch

Cynhaliwyd cinio blynyddol y sioe yn y Marine, Aberystwyth ar nos Wener y 25ain o Chwefror. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan y Cadeirydd, Dai Rees Morgan, ac wrth gwrs Auriel a Dai Evans, Bow Street, Llywyddion y sioe y llynedd. Cafwyd noson hwyliog dros ben a phawb yn gyd gymdeithasu. Bu llawer o siarad am yr hyn a'r llall yn ystod y noson a llawer o drafodaeth am wahanol bethau. Bob hyn a hyn byddai Trefriw yn dod mewn i'r drafodaeth. Pam tybed? Ha! Ha! Do cafwyd tipyn o hwyl. Diolchodd Dai i bawb am eu cefnogaeth i'r sioe fel arfer ac am noson arbennig ac am y bwyd blasus dros ben. Ategwyd hyn oll gan Mairwen yn ei ffordd arbennig arferol. Er iddo fod yn noson lawog iawn y tu fâs, aeth pawb adref yn llawen i gyd ar ôl noson gofiadwy.

## Dymuniadau gorau

Rydym fel ardal yn dymuno yn dda i Tirion Lewis ar ei chyfnod yng Nghaergrawnt. Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai anodd iawn iddi hi a'r teulu; anfonwn ei cofion cynhesaf ati.


Arweinydd Taith Iaith Gymraeg

Ym mhle: Ynys-hir, Ceredigion
Pryd: Chwef-Ebrill 2011
Ymrwymiad: 1 prynhawn yr wythnos
Hyd: 3 mis

RSPB miliwn o leisiau dros fyd natur

Mae arnom angen siaradwr Cymraeg rhugl, sy'n awyddus i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac annog dysgwyr. Byddwch yn berchen ar fedrau cyfathrebu da a byddwch yn gyfeillgar ac yn hawdd siarad â chi. Byddwch yn gweithio yn yr awyr agored, beth bynnag fo'r tywydd, felly bydd angen i chi fod yn eithaf ffit gyda'r gallu i gerdded am dros awr ar dirwedd arw.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Bryony Swinfen, Ynys-hir. Ffôn: 01654 700222
e-bost: Bryony.Swinfen@rspb.org.uk

Estyn Llaw
Datblygu Dwyieithrwydd yn y Sydd Sector

Gyda chymorth
Cronfa Dreftadaeth y Loteri

# BOW STREET

### Suliau Ebrill

Y Garn
10 a 5
Gweler http://www.capelygarn.org/
3 Richard Lewis Judith Morris
10 Delyth Morgans Bugail
17 Lyndon Lloyd
24 Oedfa'r Ofalaeth — Y Pasg

Noddfa
3 Oedfa Undebol yr Ofalaeth yn Noddfa.
10 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Cymundeb.
17 Oedfa am 2.00. Y Parchg. Andrew Lenny.
22 Oedfa Undebol Gwener y Groglith ym Methel, Tal-y-bont, am 10.00.
24 Oedfaon Undebol Sul y Pasg ym Methel, Tal-y-bont, am 10.00 a 2.00. Y Parchg. John Gwilym Jones

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddiffuant a Mrs Sian Evans, 43 Maesafallen, a`r teulu ar farwolaeth modryb iddynt yn ddiweddar.

Yr oedd Mrs Megan Davies yn chwaer i`w mam.

### Pob dymuniad da

Pob dymuniad da i Miss Cerys Evans, 42 Maesafallen, sydd newydd ddechrau ar gwrs nyrsio yng Nghaerfyrddin.

### Merched y Wawr, Rhydypennau

Ar nos Lun, Chwefror 14, daeth nifer luosog o aelodau ynghyd i wrando ar sgwrs ddifyr iawn gan Gwerfyl Pierce Jones, Penrhyn-coch. Testun ei sgwrs oedd Cardiau. Dywedodd bod y nifer o gardiau unigryw a dderbyniodd ar ei phen blwydd a'i hymddeoliad wedi ei hysgogi i feddwl am yr arferiad o yrru a derbyn cardiau. Roedd wedi ei swyno gan y dyfeisgarwch, y meddwl a'r dychymyg y tu ôl i bob cerdyn a dderbyniodd. Bu'n meddwl am yr arfer o ddanfon cardiau Nadolig, yn dechrau gyda un dyn yn anfon cardiau i'w ffrindiau hyd at y farchnad enfawr sy'n bodoli heddiw. Dangosodd gardiau celfyddydol a rhai gyda phenillion arbennig sy'n drysorau ganddi. Pwysleisiodd y dylem anfon cardiau pwrpasol a chofio ysgrifennu neges bersonol y tu mewn. Diolchwyd i Gwerfyl gan Shân. Paratowyd y te a'r bisgedi gan Annetta a Delcy ac enillwyd y raffl gan Gwenda.

Ar y nos Lun ganlynol ymwelodd nifer o aelodau, changen Tal-y-bont i wrando ar Dr Ieuan Nicolls yn sôn am ei gwmni sy'n cynhyrchu eli organig a naturiol i'r croen. Diolch am y gwahoddiad, y croeso a'r lluniaeth.

### Gwasanaeth Gwyl Ddewi

Bore Sul, 27 Chwefror, cynhaliwyd gwasanaeth Gŵyl Ddewi Eglwys Gofalaeth y Garn. Daeth cynulleidfa luosog ynghyd i Gapel y Garn i'r oedfa arbennig dan arweiniad y gweinidog, y Parch Wyn Rhys Morris. Cafwyd darlleniadau gan Rhun a Gwern, gweddiau gan Iestyn a Ffion, a chyfeiliwyd ar y delyn gan Meinir. Cyflwynwyd stori Dewi Sant gan blant y Garn mewn darlleniadau a chyflwyniadau dramatig o amrywiol olygfeydd ym mywyd Dewi, dan gyfarwyddyd Rhodri Llwyd Morgan, Janet Roberts a Rhian Jones-Steele, a chwaraewyd rhan Rhygyfarch yn urddasol gan Dewi Hughes. Gwnaed casgliad tuag at Blas Lluest, a'r organydd oedd Brenda Williams.

### Cymdeithas Chwiorydd Capel y Garn

Tegwyn Jones oedd ein gŵr gwadd ym mis Chwefror. Serendipity oedd ei destun annisgwyl. Esboniodd mai ystyr y gair yw'r pleser a geir o ddod ar draws rhywbeth annisgwyl a gwell na'r hyn a ddisgwylid. Rhoddodd Tegwyn enghreifftiau di-ri o'r math yma o ddarganfyddiad a ddaethai i'w ran pan oedd e'n gweithio ar Eiriadur y Brifysgol — yn gerddi, emynau, nodiadau, a chofnodion. Roedd y rhan fwyaf wedi eu hysgrifennu ar dudalennau gwyn gwag blaen a chefn llyfrau, neu ochr-ddalen llawysgrifau, a hynny ar adeg pan oedd papur yn beth prin. Yn gellweirus awgrymodd y gallai hyn fod yn rheswm dros yr amser hir a gymerwyd i gyhoeddi'r Geiriadur! Roedd pob enghraifft a rannodd , ni yn ddifyr, a doniolwch naturiol Tegwyn yn ychwanegu at y mwynhad.

Chwiorydd Bow-Street oedd yn gyfrifol am y te — Joyce Bowen, Kath Lewis, Meinir Lowry, Eirlys Owen a Janet Roberts. Meinir Lowry arweiniodd y defosiwn agoriadol, gyda Kath Lewis yn cyfeilio a Llinos Dafis yn y gadair.

Mrs Nansi Thirsk oedd y wraig wadd ym mis Mawrth. Mae hi'n hanu o'r Bala ac yn gyfreithiwr yn Nolgellau, ond mae gwreiddiau teulu ei mam yn ddwfn yn yr ardal yma. Mae hi'n wyres i'r Dr T .Ifor Rees, ac yn or-wyres i'r cerddor J T Rees.

Mae Nansi wedi bod yn ymweld yn gyson, Nepal ers tua saith mlynedd bellach a dyna oedd testun ei sgwrs. Mynd i gefnogi ffrind iddi, sydd bellach yn brifathrawes Ysgol Llanuwchllyn, a wnaeth hi yn y lle cyntaf. Ar ymweliad blaenorol ag ardal dlawd a chyntefig yn Nepal, roedd ei fffrind, Dilys, wedi ei syfrdanu gan dlodi ac amddifadedd yr ardal. Ar ôl dod yn ôl roedd hi wedi mynd ati i godi arian i geisio gwella'r sefyllfa trwy greu adeilad mwy pwrpasol i'r ysgol. Erbyn hyn mae yna ysgol fodern yr olwg sydd , phob math o gyfleusterau cyfrifiadurol a thechnolegol.

Mae Nansi a Dilys yn dychwelyd i Nepal bob rhyw ddwy flynedd a bellach mae partneriaeth wedi datblygu gyda chynrychiolaeth o Nepal yn dod i ymweld , Chymru yn gyson hefyd.

Yn ystod gwledd o luniau hyfryd o'r ardal anghysbell hon, y brodorion, y plant, yr anifeiliaid a'r mynyddoedd, ac o daith dridiau i un o gopaon y mynyddoedd i weld yr haul yn codi, daeth yn amlwg bod dawn ei thad-cu i dynnu lluniau a'i hoffter o fynyddoedd wedi eu trosglwyddo i'w wyres.

Mrs Gwenan Price, Mrs Shân Hayward, Mrs Anne Jones, Mrs Bethan Jones a'r Parchg Judith Morris oedd yn gyfrifol am y te. Judith Morris arweiniodd y defosiwn agoriadol gyda Gwenan Price yn darllen a Kath Lewis yn cyfeilio. Llinos Dafis oedd yn cadeirio.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymeimlad dwysaf gyda Alan Morris, Gareth a Rhiannon, Efail Fud, ar farwolaeth Joan Morris trwy ddamwain yn ddiweddar.

### Mrs Vera Lloyd
### Cwm Eithin, Maes Ceiro

Ar fore Sadwrn, 5ed Chwefror ar ôl cystudd blin bu farw Vera, priod Bryn, mam Nerys ac Aled, nain Mared a Rhydian a mam-yng-nghyfraith Ifer. Bu Vera'n dioddef am amser hir a threuliodd gyfnodau maith yn ysbytai Bron-glais a Threforys. Gŵyr pawb am yr ymdrechion diflino a wnaed i geisio'i hadfer, ond doedd hynny ddim i fod.

Roedd Vera'n unig blentyn i David Lewis a Hannah Sarah Thomas ac fe'i ganed yn Llandyfriog yn Nyffryn Teifi ger Castellnewydd Emlyn. Aeth i ysgol gynradd Aber-banc ac yna i Ysgol Ramadeg Llandysul. Yn bianydd ac organydd, medrus 'roedd cerddoriaeth yn bwysig i Vera ac enillodd radd ALCM yn 16 oed. Yn ei hieuenctid bu'n organydd yn ei heglwys yn Llandyfriog. Wedi'r ysgol ramadeg aeth i Goleg y Drindod, Caerfyrddin i'w hyfforddi fel athrawes ysgol gynradd a'i phrif bwnc oedd cerddoriaeth. Wedi cymhwyso fel athrawes dechreuodd ar ei gyrfa yn Ysgol Hengoed Sir Forgannwg lle bu'n athrawes am bum mlynedd. Cyfarfu â'i phriod, Bryn, yn Nhŷ'r Cymry, Caerdydd, a bu'n aelod brwdfrydig o Aelwyd yr Urdd yno ac o Gôr yr Aelwyd dan arweiniad Alun Guy. Priododd, Bryn ddiwedd Mawrth 1967 a ganwyd Nerys ac Aled yng Nghaerdydd cyn i'r teulu symud i Aberystwyth wedi penodi Bryn yn Ysgrifennydd y Llyfrgell Genedlaethol ym 1971. Fe ymgartrefwyd ym Maes Ceiro, Bow Street ac ymaelodi yng Nghapel Y Garn lle bu Vera yn athrawes



Blodau i bob achlysur
**Blodau'r Bedol**
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

JONATHAN JAMES LEWIS
SAER COED ADEILADYDD
BRONLLYS, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH
01970 880652
07773442260

ysgol Sul ac, hyd ei gwaeledd, yn organydd. Cyfrannodd yn gyson i fywyd ei chapel a'i chymuned gan gynnwys pwyllgor y neuadd bentref a'r sioe arddwriaeth flynyddol.

Am 11 mlynedd yn ystod y 70au a'r 80au bu Vera yn athrawes Feithrin yn Nhal-y-bont, cyfnod hapus iawn yn ei hanes, a chofnododd ei phrofiadau, gyda nifer o drigolion eraill Tal-y-bont, yn y gyfrol Ein Canrif a argraffwyd gan wasg Y Lolfa beth amser yn ôl. Bu'n gyfeilydd Côr Ysgol Tal-y-bont o dan arweinyddiaeth Geraint Thomas, gorchwyl a roddodd bleser mawr iddi wrth i'r c ôr fwynhau llwyddiant yn lleol a chenedlaethol.Yna ar ddechrau'r '80au, bu'n Drysorydd Ceredigion o'r Mudiad Meithrin yn Nyfed am tua 6 blynedd. Cefnogodd yn ymarferol ymdrechion yn y Capel i sefydlu grŵp Hwyl Hwyr i blant y Capel ddiwedd y '90au /dechrau'r 2000awd ac yna yn fwy diweddar y grŵp ieuenctid 'Os MÎts'

Wedi'r cyfnodau hyn bu Vera'n dysgu fel athrawes gyflenwi mewn sawl ysgol yng ngogledd Ceredigion. hyd nes iddi gyrraedd 65 oed.

Byddai Vera yn mwynhau oriau hamdden prysur a diwyd yn gwau a gwnÔo, gwirfoddoli i ddarllen papur sain cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth, ac yn ddiweddarach darllen pum papur bro misol ar d.p o'i chartref i ddeillion canol a gogledd Ceredigion. Yn ei hamser cododd gannoedd o bunnau i wahanol sefydliadau gan gynnwys uned babanod newydd-anedig yn Ysbyty Bron-glais; Age Concern; ymgyrch y Capel i brynu geifr i dlodion y trydydd byd, a chyda'i ffrindiau yn ngrŵp Help Llaw y Capel cynorthwyodd yn wythnosol at achosion dyngarol amrywiol. Roedd yn un o aelodau gwreiddiol Brodwaith Cymru, ac yn ogystal bu'n aelod brwdfrydig o gangen Merched y Wawr, Bow Street, ac o Glwb Cinio'r Merched yn Aberystwyth hyd ei gwaeledd.

Gwasanaethwyd ar ddydd ei harwyl yng Nghapel Y Garn gan ei Gweinidog, Y Parchedig Wyn Rhys Morris, ei chyn-weinidog Y Parchedig Elwyn Pryse, yn cael eu cynorthwyo gan Y Parchedigion J E Wynne Davies, Towyn Jones, Judith Morris a Richard Lewis. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Y Parchedigion Ken Williams, Andrew Lenny, John Tudno Williams, W J Edwards ac R W Jones (cyn-weinidog).

Yr archgludwyr oedd y Mri Geraint Rees, Martyn Thomas, Trefor Wynne a Rhys Knight a Mr Alan Wynne Jones oedd yn gwasanaethu wrth yr organ. Rhoddwyd ei chorff i orffwys ym mynwent Y Garn a gwasanaethwyd ar lan y bedd gan Y Parchedigion Wyn Rhys Morris ac Elwyn Pryse.

### Cydnabyddiaeth

Yn dilyn eu profedigaeth drist o golli Vera yn ddiweddar dymuna Bryn a Nerys ac Aled a'r teulu fynegi eu gwerthfawrogiad diffuant o'r caredigrwydd a'r gefnogaeth a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled, ynghyd hefyd ;'r llu llythyrau a chardiau o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt. Mynegir diolch cynnes hefyd am y rhoddion ariannol niferus er cof am Vera a ddaeth i law.

Gwerthfawrogwyd yn arbennig iawn wasanaeth eu Gweinidog, Y Parchedig Wyn Rhys Morris, drwy gydol gwaeledd Vera ac am ei arweiniad a'i eiriau o gysur a chymorth, gyda'i gyd-weinidogion, ar ddiwrnod ei harwyl. Diolch hefyd i'r gwasanaethau iechyd am eu gofal tyner hwy dros amser ac i'r ymgymerwr, C Trefor Evans a'i staff, am weithredu'n ystyriol dros gyfnod yr angladd.



### Canu yn Los Angeles

Bu Rhodri Evans, Bryncastell, yn canu gyda Miriam Isaac ac eraill mewn cyngerdd dathliadau Gŵyl Ddewi yng Nghapel Cymraeg Los Angeles dydd Sul 27 Chwefror. Cafodd Rhodri wahoddiad gan wrandawr ar ôl ymddangos ar y rhaglen 'Cyfle Cothi' ar y radio ym mis Rhagfyr. Cafodd gyfle i weld tipyn o'r ddinas a thramwyo strydoedd disglair Hollywood yn ystod yr wythnos lle cafodd groeso cynnes gan y Cymry ar wasgar. Yn ôl Rhodri roedd yn brofiad bythgofiadwy.



### Siarad Cymraeg yn Awstralia

Aled Phillips — dwyflwydd oed — mab Rhydian a Megan Phillips yn ei ganolfan warchod plant yn Cleve. De Awstralia. Mae staff y Ganolfan wedi rhoi lle amlwg i'r Gymraeg gan fod Aled yn ddwyieithog. Maent yn frwd i glywed mwy o Gymraeg a gwnaethant arddangosfa fawr ar y Gymraeg gan ddweud fod plant eraill a'u rhieni yn cymryd diddordeb am ddysgu iaith arall hefyd. Dywedodd Fiona yn y Ganolfan eu bod yn gwrando sut yr yngenir geiriau gan eu hysgrifennu i lawr yn Saesneg sut mae eu dweud i gynorthwyo iddynt ddysgu. Mae Aled yn aml yn siarad gyda ni yn Gymraeg felly rydym yn meddwl ei fod yn bwysig ein bod yan dysgu fel ein bod yn deall ac yn gallu cyfathrebu gydag ef. Bydd Aled yn lladd ei hun yn chwerthin pan fyddaf yn cyfrif iddo er nad wyf gant y cant yn sicr fy mod yn ynganu y geiriau yn gywirî, meddai Lisa, y Cyfarwyddwr Gofal Plant. Roeddym yn meddwl y byddai ei fam-gu a thad-cu — Louisa ac Alun Phillips a'j hen fam-gu Maud Phillips — i gyd yn Bow Street — yn falch o weld ei fod yn cynorthwyo eraill i lawr yma sut i siarad Cymraeg. Efallai mai Cleve fydd y Wladfa newydd?!

### Gweithio gyda'r iaith ger y Paith

Dymuniadau gorau i Lois Dafydd, Maes Afallen, sydd newydd gyrraedd y Gaiman ym Mhatagonia i weithio am flwyddyn gyda Menter Patagonia.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Huw a Leonie Lloyd Jones, Caerdydd ar enedigaeth mab - Daniel - ar Fawrth 2il; ŵyr i Gwen Lloyd Jones, Lasynys.


RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Y TINCER

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
Sefydledig dros 30 mlynedd
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

## COLOFN MRS JONES

Y mae'r dyddiau yn ymestyn a'r gwanwyn ar droed, o, fe wn fod peth amser eto cyn y daw'n llanc i'n gerddi ond y mae o ar ei ffordd. Ac mae hynny yn codi calon y mwyaf digalon ar ôl gaeaf mor oer.

Yr adeg hon o'r flwyddyn arferai mam roi cymysgedd o sylffyr a thriog inni, llond llwy de ohono pob bore. Puro y gwaed o wenwynau'r gaeaf oedd ei bwrpas ym marn fy mam ond y mae gennyf fi syniad mai mam yn unig a deimlai yn well ar ei ôl a hynny am iddi wneud ei dyletswydd tuag atom! Ni ellir gwadu, fodd bynnag, nad oes gan lond lwy de o sylffyr a thriogl efo'r moel [heaped teaspoon!] effeithiau diddorol a symudol ar goluddion ond peth arall ydi hynny.

Yr oedd gan fy mam sawl syniad fel hyn ac ymarferai hwy yn ddyfal. Credai yn gydwybodol mewn rhinweddau diod ddail gan fragu y ddiod honno - a sawl gwin arall - yn y pantri. Hyn a arweiniodd at yr embaras mwyaf a gafodd mam erioed.Yr oedd wedi cytuno i roi cinio i'r gweinidog rhyw ddydd Sul gan feddwl, yn ddigon naturiol, mai Nhad fyddai, yn wir, ei geiriau cyntaf wrth ddod adref oedd dweud mor od Mrs So and So yn cyfnewid y Sul a hynny heb angen gan mai Nhad oedd  ac y byddai adref am ginio, beth bynnag. Ond, yr hyn na wyddai fy mam, oedd fod fy nhad yn newid pwlpudau y dydd Sul hwnnw ac mai pregethwr gwadd oedd ym Maengwyn...ac fe fyddai gweinidog dieithr yn y mans i ginio.

Wel, nid oedd lawer o ots am hynny a byddai pob peth wedi bod yn iawn oni bai am ddwy ffaith. Un oedd bod y gweinidog dan sylw yn ddirwestwr cadarn a'i lwyrymwrthod wedi ei seilio mewn concrit a hwnnw'n goncrit dwbl.Yr ail ffaith oedd fod Mam wedi bod yn hel mwyar duon a gwneud gwin mwyar duon a bod ganddi rhyw hanner dwsin o boteli yn y pantri yn gweithio yn braf.Yn rhy braf, fel y digwyddodd hi.....hanner ffordd trwy'r pwdin, dyma ffrwydrad o'r pantri. Petai dim ond un botel wedi chwythu, byddai'r ymwelydd wedi derbyn mai car yn bacffeirio oedd o ond pan aeth pob un o'r gweddill ac y dechreuodd arogl gwin hydreiddio o'r pantri, ni allodd mam ond cydnabod ei bai a cheisio maddeuant. Nis cafodd, yr unig beth a ddwedodd ein hymwelydd oedd 'rhag cywilydd arnoch chi yn camddefnyddio'r mans' cyn ei chodi hi o'r bwrdd a'i heglu hi am allan.! Diolch i'r drefn, fe welodd fy nhad yr ochr ddoniol a daeth camddefnydddio'r mans yn ymadrodd teulu am flynyddoedd.

Un arall o hynodion fy mam oedd coginio danadl poethion a'u gweini fel spinach neu gyda ychydig saws gwyn.Yr oedd ganddi yn ei gardd wely bach ohonynt a gadwai o fwriad ac yr oedd eu hel yn ddefod, rhaid oedd eu hel a llaw am dim ond y rhai oedd yn rhy ifanc i'ch llosgi oedd ffit i'w bwyta yn ei thyb hi, am wn i, nad i'r ddiod ddail yr âi'r rhai hŷn! Weithiau, malai hwy a dail dant y llew yn fan, fan, a'u sgeintio dros salad yn lle persli ond beth bynnag ei defnydd ohonynt, yr oedd hi yn gadarn o'r farn fod mwy o les mewn danadl poethion nag mewn aml i beth mwy arferol. Yn hyn o beth, yr oedd hi a'i mam yn cytuno, bwydai fy nain ddanadl poethion i'w thyrcwn i'w cadw yn holliach.

A bod yn onest, mae gennyf fi syniad mai gan ei mam y cafodd  fy mam y cwbl o'i syniadau achos credai fy nain mewn pethau go od, gin a phupur i setlo'r stumog, er enghraifft, posel llaeth enwyn a thriog at annwyd a'r wermod lwyd am archwaeth ond letys at insomnia. Diolch i'r drefn na ymhoffodd yr un ohonynt mewn asiffeta, dda'm gennyf fi ddim arogl yr hen beth drewllyd hwnnw.

Ac mae'n rhaid gofalu rhag wfftio gormod. Un arfer a etifeddodd fy nain gan ei mam ei hun oedd cadw bara wedi sprychu  ar gyfer ei ddefnyddio ar friwiau oedd yn madru. Roedd hyn yn arfer gwlad pur gyffredin ac, wrth gwrs, sprych neu mould yw ffynhonnell penisilin. Efallai y byddai'n gywirach dweud mai disgrifio yn ffurfiol am y tro cyntaf  y berthynas rhwng  spor penisilin a haint  a wnaeth Fleming gan ei bod hi yn amlwg fod ffermwyr cefn gwlad eisoes yn gwybod fod bara wedi sprychu yn gwella clwyfau pedd hyn madru.

Y mae hi hefyd, wrth gwrs, yn Rawys, a gobeithio y bydd i chi dreulio'r tymor yn myfyrio ar y Crist Croeshoeliedig ac ar yr hyn allwch chi ei wneud trosto. Am wn i nad yw hi'n well gwneud rhywbeth dros Grist na disgyblu ein hunain i ymwrthod â  rhywbeth er ein lles ein hunain.....

# Ar drywydd T. Ifor Rees

Yn rhifyn Chwefror y llynedd cafwyd ysgrif ddiddorol gan un o'r plant hyfryd oedd gen i yn Llanuwchllyn, Leusa Fflur Llewelyn ar 'T. Ifor Rees — Yr Anturiaethwr'. Roedd wedi dod ar draws mab J.T. ac Elizabeth Rees, Bronceiro, wrth ymchwilio ar gyfer gradd M. Phil dan gyfarwyddyd Dr Marged Haycock, ar lyfrau taith, a chael ei chyfareddu gan ei ddwy gyfrol hardd, *Sajama* (1960), ac *Illimani* (1964). Rhoddwyd enw mynydd uchaf Bolivia ar y gyntaf sy'n cyflwyno mewn gair a llun hanes teithio ar ddau gyfandir - Mecsico, Nicaragua, Peru a Bolivia. Cyflwynodd fwy o atgofion am ei deithiau yn yr ail lyfr.

Cafodd y cyfrolau gymaint o afael ar Leusa Fflur fel y penderfynodd fynd i fagbacio am fisoedd y llynedd a dilyn yn ôl troed Ifor Rees. Ar 23 Chwefror daeth Leusa i'r Drwm yn y Llyfrgell Genedlaethol i gyflwyno hanes ei thaith mewn gair a llun — ei lluniau hi a rhai'r ddau lyfr. Roedd ei chyflwyniad hwyliog yn dangos iddi gael profiadau gwerthfawr wrth ymweld â'r mannau a ddisgrifir yn y llyfrau a dwyn i gof ambell stori drawiadol am berygl ac argyfwng. Byddai'n dda pe bai Leusa'n mynd ati i roi'r cyfan mewn llyfr. A ninnau wedi adnabod Leusa Bryn'raber er pan oedd yn faban roedd Gwenda a minnau yn naturiol yn canmol ei gwaith fel yr oedd pawb arall a lanwodd Y Drwm i wrando arni. Roedd yn dda cael cwmni Morfudd, merch T. Ifor Rees a dwy genhedlaeth arall yn y teulu, a pherthnasau eraill megis Teleri Bevan, cyfnither Morfudd. Da cael dweud fod Leusa wedi gwerthfawrogi'r cymorth cyson a gafodd gan Morfudd wrth iddi fynd ar drywydd teithiau ei thad. Dymunwn yn dda i Leusa wrth iddi ymuno â staff Yr Academi yn Ebrill.



Wrth droi i'r cyfrolau cain unwaith eto a sylwi fod T. Ifor Rees wedi cynnwys adnodau wrth eu cyflwyno - 'Mewn teithiau yn fynych, 2 Cor. X1, 26; yn y gyntaf a 'Ac efe a aeth ar ei deithiau' Gen. X11, 3; yn yr ail, cofiais am ei gymwynas yn cyhoeddi'r llyfryn gwerthfawr, 'Geiriau Diddorol a geir yn y Beibl gan gynnwys yr Apocriffa', ym 1965. "Wrth ddarllen y Beibl a'r Apocriffa gyda'm dosbarth yn Ysgol Sul y Garn y dechreuais loffa'r geiriau a geir yn y casgliad hwn — geiriau diddorol sydd, gan mwyaf, mi dybiaf, yn ddieithr, i raddau mwy neu lai, i'r darllenydd o Gymro heddiw". Mae'r ffaith iddo nodi fod unrhyw elw i'w rannu rhwng Y Feibl Gymdeithas a Chartref Plant Bontnewydd, yn dangos fod gweithredu'i Ffydd Gristnogol yn bwysig iawn iddo.

Dyma ambell air: ANGENOCTID — eisiau, tlodi, adfyd, 'adversity' - "Am hynny y cawsom gysur, frodyr, amdanoch chwi, yn ein holl orthrymder a'n hangenoctid, trwy eich ffydd chwi".(1Thes. iii,7). ANHYDYN — ystyfnig, gwrthnysig, 'stubborn' - "Er hynny gwrthodasant wrando, a rhoddasant ysgwydd anhydyn, a thrymasant eu clustiau rhag clywed". (Sech.vii,11). PENTEWYN — darn o bren neu o ryw ddefnydd arall wedi golosgi, neu ddechrau llosgi, 'firebrand'. -"Mi a ddymchwelais rai ohonoch, fel yr ymchwelodd Duw Sodom a Gomorrah; ac yr oeddech fel pentewyn wedi ei achub o'r gynnau dân". (Amos iv,11). Y mae Morgan Rhys wedi cydio ANHYDYN a PENTEWYN gyda'i gilydd yn ei emyn cyfoethog — 'Molianned pob enaid fy Arglwydd ar gân/am achub anhydyn bentewyn o'r tân'

**W. J. Edwards**

## COLOFNYDD Y MIS



### Rhodri Darcy

'Does unman yn debyg i adra' yw geiriau'r gytgan yng nghân boblogaidd Gwyneth Glyn, ac i rywun sydd wedi symud i fyw i ffwrdd o Geredigion, mae'r geiriau yn arbennig o wir. Er fy mod yn frodor o Bow Street, rwy' bellach wedi ymgartrefu yn Rhydaman, ond yn wahanol i nifer o'm cyfoedion sydd wedi gorfod heidio i'r de am waith a bywoliaeth, rwy'n cael cyfle nawr i ddychwelyd i'r Sir yn aml yn rhinwedd fy swydd.

Ers pum mlynedd rwyf wedi bod yn ohebydd ar raglen gylchgrawn Wedi 3 ar S4C, a thrwy adrodd am straeon difyr a dysgu am hanesion lleol rwyf wedi dod i werthfawrogi Ceredigion trwy lygaid newydd.

Eleni, wrth i ni gofio can mlynedd ers cyhoeddi'r darn arian Cymreig olaf, bûm ar drywydd yr arian cyntaf o Gymru, a chlywed am hen fanciau'r porthmyn yn Nhregaron a'r cylch yn y ddeunawfed ganrif, a chael cyffwrdd â darn papur dwy bunt "Banc yr Eidion Du" sydd bellach yn rhan o gasgliad y Llyfrgell Genedlaethol. Mae hanes y Cardis ac arian yn un tu hwnt o ddiddorol!

Rwyf hefyd wedi gwerthfawrogi'r ysbryd cymunedol sy'n perthyn i'n pentrefi — a gweld y gwaith a'r gofal sy'n cynnal y cymunedau hynny. Bûm yn Nhrefeurig yn sgwrsio ag Edwina Davies a'r criw brwd o drigolion lleol sy'n gweithio'n ddyfal i brynu adeilad yr ysgol er budd y gymuned.

Y llynedd, bûm ar Fws y Bryniau yn ardal Pontarfynach a Phont-rhyd-y-groes a gweld ymdrech criw o wirfoddolwyr i gludo trigolion lleol i'w cartrefi diarffordd, ac mae'n debyg bod cynllun newydd ar waith ganddynt i gludo teithwyr anabl o'u cartrefi i'r dre — o'r enw "Bws Bro".

Ac wrth deithio, profiad hyfryd oedd gohebu ar waith ffyddlon gyrrwyr y faniau Llyfrgell yng Ngheredigion, a gweld y gwasanaeth yn un sy'n fwy na chludo llyfrau a DVDs yn unig. Erbyn hyn mae'r gwasanaeth — sy'n teithio o'r arfordir ger Aberteifi yn y de i ogledd y sir - yn gyswllt hollbwysig i drigolion lleol, ac yn enwedig i'r henoed sy'n methu â chyrraedd llyfrgell.

Ydy, mae cyfoeth yr hyn sydd gennym ni yn ein cymunedau, yn bobl, traddodiadau, iaith a diwylliant yn rhywbeth i'w drysori. Ond mae'r sianel deledu Gymraeg sydd yn ddrych o'n diwylliant a'n Cymreictod hefyd yn beth i'w amddiffyn, a gyda bygythiadau newydd i'r arlwy ar S4C, ac i raglenni fel Wedi 3, efallai y dylem ni fel aelodau o'n cymunedau godi llais i sicrhau eu dyfodol. Does dim dwywaith amdani bod rhaglenni o'r fath yn hanfodol i'n cymunedau gwledig gan eu bod yn adlewyrchu'r cywaith amryliw sydd gennym yng Nghymru.

**Y mis nesaf**: Bethan Evans

## O'R CYNULLIAD

Wedi'r prysurdeb dros yr wythnosau diwethaf yn arwain at ddiwrnod y Refferendwm ar bwerau deddfu llawnach i'r Cynulliad Cenedlaethol, mae golygon nifer wedi dechrau troi at yr Etholiad Cymreig a gynhelir ar 05 Mai. Fodd bynnag, rwy'n parhau i gynrychioli trigolion Ceredigion fel Aelod Cynulliad tan ddiwedd mis Mawrth, ac mae'n parhau yn gyfnod prysur iawn yn lleol ac ym Mae Caerdydd.

Yn ddiweddar, daeth newyddion i'w groesawu gan fodurwyr Ceredigion a thrigolion gogledd y sir. Cyhoeddodd Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth Cymru, Ieuan Wyn Jones AC, bod gwaith lledu a gwella darn o hewl yr A487 yng Nglandyfi am ddechrau yn fuan gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn 2012.

Mae'r darn yma o'r hewl wedi bod yn ben tost i'r rhai sy'n teithio ar hyd yr A487 ers blynyddoedd. Mae hi'n gwbl amlwg nad yw'r hewl yn gallu ymdopi dan bwysau cerbydau trwm na gofynion teithio cyson sydd gan fodurwyr yn yr oes ohoni. Mae'n debyg bydd oedi am rai misoedd wrth i'r gwaith cael ei gwblhau, ond dyma bris bach am allu teithio hyd yr A487 yn ddiffwdan am flynyddoedd i ddod.

Eto ym myd trafnidiaeth, roeddwn yn siomedig iawn i glywed bod Arriva wedi penderfynu torri yn ôl ar wasanaethau bws yr X40 yn ddi-rybudd ar ddiwedd mis Ionawr. Fe gysylltais yn syth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ynghylch hyn, ac yn dilyn ei ymyrraeth ef, fe ail-gyflwynwyd y gwasanaethau a gollwyd o ganol mis Chwefror ymlaen. Mae gwasanaeth yr X40 — ynghyd â gwasanaethau'r X50, X32, X41 a'r 550 — yn bwysig iawn am ei fod yn cysylltu cymunedau gwledig Ceredigion ac yn rhoi'r cyfle i bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na defnyddio'r car o hyd.

Yn ystod mis Chwefror, fe deithiais draw i Frwsel i fynychu cyfarfod oedd yn trafod dyfodol taliadau'r Polisi Amaeth Cyffredinol. Rwy'n gwbl-argyhoeddedig ei bod hi'n hanfodol bod y taliadau yma'n parhau — er gwaethaf ymdrechion llywodraeth San Steffan i ddadlau yn eu herbyn — er mwyn ceisio sicrhau dyfodol hir-dymor i'n sector amaethyddol.

Fel y sonia Rhodri yn ei golofn mae si ar led fod S4C am gael gwared ar Wedi 3. Ffurfiwyd grŵp ar Facebook sy'n meddwl fod hyn yn hollol warthus gan fod Wedi 3 yn rhan mor bwysig o'r sianel ac o fywyd a diwylliant Cymru gan ei fod yn rhoi sylw i bob agwedd o fywyd bob dydd ac yn adnodd pwysig i rai sydd adref yn y prynhawn. Caiff rhai sy'n cytuno eu gwahodd i ymuno â'r grŵp neu i gysylltu i ddweud eich bod chi am gadw Wedi 3 - gwifren@s4c.co.uk neu 0870 600 4141.


Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Chwilio am ofal plant?
Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn
01545 574187
E-bost
cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan
http://cis.ceredigion.gov.uk

Neuadd Cyngor Ceredigion
Swyddfeydd Cyngor Sir,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA



MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

**Cylch Meithrin Rhydypennau**

Addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2½ oed. Bob Bore Llun, Mawrth a Mercher yn Ysgol Rhydypennau. 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6 sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.

**Ti a Fi Llandre**

Cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. £1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.

# YSGOL PENRHYN-COCH

### Gwersyll Llangrannog

Ar y 7fed o Chwefror aeth blwyddyn 4, Mr Roberts, Mr Lewis a Mrs Evans i Langrannog am dridiau. Roedd pawb yn gyffrous iawn wrth ddal y bws i fyny i'r gwersyll. Wedi i ni gyrraedd y gwersyll cawson groeso mawr gan Lowri a'r holl staff. Cawson ni llawer o hwyl ar ddydd Llun yn nofio, saethyddiaeth ac adeiladu lloches. Roedd pawb wedi blino'n lan wedi'r holl gyffro. Ar ddydd Mawrth gwyntog cawson hwyl yn marchota, gwib gartio a sgïo. Erbyn diwedd y dydd roedd pawb yn edrych ymlaen at ddawnsio yn y disgo. Enillodd Tomos ac Owen y ddawns gorau! Yn anffodus dydd Mercher oedd ein diwrnod olaf yn Llangrannog. Wedi cwpwl o weithgareddau eraill roedd yn amser i fynd adref. Roedd pawb yn drist iawn i adael Llangrannog ac yn gobeithio mynd nôl rhywbryd eto.
Gan Elain, Taylor a Steffan



Côr a Staff Ysgol Penrhyn-Coch ynghyd â Mr Maldwyn James a Mr Ian Rees a Mared Emyr yn nathliadau Gwyl Ddewi Clwb Rotary Aberystwyth yng Ngwesty'r Marine. (Llun Mike Price)

### Rhys Taylor

Braf oedd croesawu y cerddor proffesiynol a dawnus, Rhys Taylor i'r ysgol yn ddiweddar. Daeth i'r ysgol i berfformio i'r holl ddisgyblion. Treuliodd dros awr yma yn chwarae y clarinet, y sacsoffon a'r ffliwt i'r disgyblion. Cafwyd hanes ambell i ddarn ganddo a gwelwyd rhai o ddisgyblion yr ysgol yn chwarae offerynnau unigryw! Cafwyd mwynhad llwyr gan yr holl ddisgyblion a buan yr hedfanodd yr awr. Diolch iddo am ddod atom ac am sbarduno nifer o'r disgyblion i ddangos diddordeb i chwarae offerynnau cerddorol.

### Stondin Gacennau

Cynhaliwyd stondin gacennau fisol yr ysgol ar ddechrau mis Mawrth. Tro dosbarth Mr Evans oedd hi y tro yma. Daeth criw da at ei gilydd i brynu cacennau oddi ar y stondin. Dau o ddisgyblion y dosbarth fu wrthi'n gwerthu. Diolch i bawb a gyfrannodd gacennau neu fu wrthi yn prynu. Llwyddwyd i godi dros £125 mewn cyfnod byr iawn o amser. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

### Cawl a Chân Rotary

Derbyniwyd gwahoddiad gan Rotary Aberystwyth i fynd ati i'w diddanu fel rhan o ddathliadau Gŵyl Ddewi. Cafodd y côr gyfle i ganu tair cân i gynulleidfa amrywiol. Roedd yn braf cael y côr i ganu y tu allan i'r ysgol. Diolch yn fawr i Rotary am y gwahoddiad ac am y croeso cynnes a gafwyd i'r disgyblion a'r staff.

### Diwrnod y Llyfr

I ddathlu dwirnod y Llyfr, gwelwyd y disgyblion (a'r staff) yn gwisgo i fyny fel cymeriadau amrywiol o lyfrau. Gwelwyd amrywiaeth o gymeriadau o lyfrau Cymraeg a Saesneg gan gynnwys rhai o'r staff fel cymeriadau gwlad y Rwla a dau o stryd enwog yn America (Sesame Street). Cafwyd llawer iawn o hwyl yn ystod y diwrnod.

### Dydd Gŵyl Ddewi

Fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Ddewi yr ysgol, gwahoddwyd y disgyblion i wisgo dillad traddodiadol neu crysau coch. Cafwyd llawer o wisgoedd arbennig, gan gynnwys un bachgen wedi gwisgo fel merch draddodiadol. Yn ystod yr wythnos nesaf, byddwn yn cynnal Eisteddfod Ysgol Gŵyl Ddewi.

### Prynhawn Agored y Cyfnod Sylfaen

I gyd-fynd â dathliadau Diwrnod y Llyfr, trefnwyd prynhawn agored gan staff y cyfnod sylfaen. Gwahoddwyd rhieni y disgyblion i mewn i gefnogi gweithgareddau yn seiliedig ar lyfrau Rala Rwdins. Daeth criw dda i gefnogi a chawsant gyfle i weld y math o waith a wneir gan ein disgyblion.



Disgyblion wedi gwisgo i fyny fel Ceridwen o wlad y Rwla ar Ddiwrnod y Llyfr



Disgyblion y cyfnod sylfaen gyda'r sied adnoddau newydd.


**CLWB CŴL**
**Penrhyn-coch**

**CLWB AR ÔL YSGOL**
**Ar Agor Llun-Gwener o**
**3.30 y.p - 5.30 y.p.**
**£6 y sesiwn £5 ail blentyn**
**Sesiynau wrth yr awr ar gael**

**Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig**
**Gofal Plant Cofrestredig**

**CLWB GWYLIAU**
**Mae'r clwb hefyd ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS**
**08.30 y.b. – 5.30 y.p.**

£20 y diwrnod plentyn cyntaf
£18 y diwrnod ail plentyn

Sesiwn hanner diwrnod
08.30 – 1.00 y.p. neu 1.00 y.p. – 5.30 y.p.

**£10 plentyn cyntaf . £9 ail plentyn**

www.facebook.com/pages/Clwb-Cwl-Penrhyn-coch-After-School-Club/235577369148?ref=ts

**I fwcio cysylltwch â**
**Delyth James neu Katy Nash ar**
**07972 315392**
**clwbcwl@googlemail.com**
**Neu cipiwch mewn i'r clwb ar ôl Ysgol**

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

## Gweithdai Drama

Mae'r disgyblion wedi bod yn mwynhau gweithdy drama yn wythnosol dan arweiniad profiadol Mari Rhian Owen. Mae'r plant yn edrych ymlaen i'w gweld bob wythnos.

## Gala Nofio

Llongyfarchiadau mawr i Jonah Williamson- Evans ac Erin Hassan ar ddod yn y tri cyntaf yn y Gala nofio dros Geredigion.

## Ysgol feithrin

Hyfryd yw gweld yr ysgol feithrin yn datblygu eu horiau agor i 12.30 bob dydd. Mae'r plant wedi bod yn ymuno â ni yn yr ysgol a bwyta cinio ysgol blasus Wendy. Mae'n bleser gweld eu caban lliwgar a'r adnoddau newydd sydd gennynt.

## Cyngerdd Gwyl Ddewi

Cynhaliwyd cyngerdd Gŵyl Ddewi yn yr ysgol Dydd Gwener 4ydd o Fawrth. Roedd y disgyblion wedi bod yn brysur yn dysgu gwahanol eitemau megis canu, llefaru, darlleniadau a chwarae offerynnau a chafwyd bore hyfryd o gymdeithasu efo te traddodiadol Gymreig gyda rhieni a ffrindiau'r ysgol.

## Diwrnod y Llyfr

Roedd hi'n hyfryd gweld y plant ar Ddiwrnod y Llyfr wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad allan o lyfr. Roedd pob dosbarth yn frith o liwiau lliwgar.

## Argraffu

Daeth Ruth Packham i'r ysgol o fewn yr wythnos gyntaf ar ôl hanner tymor i helpu plant yr Urdd i wneud argraffiadau ar ddefnydd. Thema yr argraffiadau oedd Ein Bro, a chafwyd llawer o syniadau gwreiddiol iawn gan y plant. Roedd y plant wedi mwynhau y profiad yn ofnadwy a gobeithir cystadlu efo'r darnau gorffenedig yn yr Eisteddfod.

## LATCH

Cafwyd diwrnod o wisgo fel anifeiliaid a gwerthwyd cacennau yn yr ysgol er mwyn codi arian i LATCH ein helusen ni eleni

## Tacluso'r ardal allanol

Mae rhieni a ffrindiau'r ysgol wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn tacluso yr ardal allanol yr ysgol. Mae'r ardd gefn wedi newid yn sylweddol efo cerrig wedi ei osod yn lle y porfa. Mae sawl lle wedi cael cot o baent ac mae'r lle yn edrych yn barod am yr hanner tymor nesaf. Diolch yn fawr i bawb am eu cymorth.

## Llangrannog

Aeth Dion Ellis-Clark a Natty Parton i Langrannog yn ddiweddar gyda disgyblion o ysgolion cyfagos Penrhyn-coch, Comins-coch a Llanilar. Roeddent wedi cael llu o brofiadau newydd fel sgio, merlota, cyfeiriannu, dringo ynghyd a gwneud llwyth o ffrindiau newydd hefyd. Cafodd Mrs Herbert-Morgan amser da ar y llethr sgio hefyd.

## Santes Dwynwen

Cafodd yr ysgol brynhawn arbennig ar Ddiwrnod Santes Dwynwen, roedd y neuadd yn llawn o blant yn mwynhau gêmau parti a chafwyd gwledd o fwyd wedyn ar ôl sbri y gêmau. Roedd y plant yn falch iawn eu bod wedi cael parti ar ôl iddynt golli eu parti dolig oherwydd yr eira.

## Y tudalen we

Mae gan yr ysgol dudalen we newydd sy'n werth ei gweld. Mae'n llawn gwybodaeth am yr ysgol. Mae tudalennau ar y plant, y dosbarthiadau, y staff a dyddiadau pwysig. Edrychwch ar www.craigyrwylfa.ceredigion.sch.uk/ am ragor o wybodaeth.

## Dewi Pws

Cafwyd diwrnod yn llawn hwyl a jocs wrth i Dewi Pws ymweld a'r ysgol i hybu llyfrgelloedd lleol a'r holl wahanol lyfrau sy ar gael i ni. Roedd y plant wedi mwynhau cwmni Dewi Pws yn fawr.



Dion a Natty yn cymdeithasu yn Llangrannog



Gweithdy drama gyda Mari Turner



Jonah Williamson Evans a Erin Hassan



Pawb yn mwynhau yn y parti Santes Dwynwen

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Eisteddfod Ysgol

Ar Fawrth y nawfed cynhaliwyd yr Eisteddfod Ysgol, er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Ar ôl wythnosau o ymarfer a chwblhau gwaith penodol ar gyfer cystadlaethau dosbarth, daeth yr amser i feirniadu ymdrechion y plant. Roedd hi'n ofynnol fod pob plentyn yn adrodd neu'n canu neu'n chwarae darn offerynnol. Yn ychwanegol i hyn bu'r beirniaid yn dewis y goreuon o'r cystadlaethau dosbarth. Roedd pob tasg yn y gystadleuaeth yn ymwneud â Chymru. Ac ar gyfer y prif gystadleuaeth sef ennill 'Y Gadair', bu blwyddyn 5 a 6 yn cyfansoddi cerddi ar y thema'Cymru'. Roedd ansawdd y cerddi yn arbennig o dda eleni, ond, ar ganiad y corn, Glesni Morgan o flwyddyn 6 a gododd o ganol y gynulleidfa i gipio'r Gadair. Llongyfarchiadau mawr i Glesni. Dyma'r gerdd fuddugol:-

### 'Cymru'

Cymru fach, bro fy mebyd,
Yr Wyddfa sydd yn gopa iddi,
Caerdydd 'brifddinas yn y de
ac Ynys Môn, Mam Cymru.

Cawl a chacen gri i ddathlu
Dydd ein Nawddsant Dewi,
Twmpath Dawns; hwyl a sbri
ar Fawrth y cyntaf eleni.

Eisteddfod yr Urdd sy'n rhoi cyfle
i'r plant ddangos eu donie,
Y Genedlaethol yn yr haf
Rhuban glas neu goron 'falle.

Rygbi yw ein gêm ryngwladol
Crysau coch yn llenwi'r lle,
Stadiwm newydd sbon i'w gynnal
Trip bach arall lawr i'r De.

Sioe Llanelwedd prif uchafbwynt
i'r amaethwyr yn ein plith,
Defaid Cymreig a gwartheg duon
Ac ambell gobyn brith.

Daw enwogion fri o Gymru
Dai Llanilar ar y 'Sgrîn',
Catrin Finch ar y delyn,
Sy'n wych am ddiddanu'r Queen.

Cymraes fach landeg ydw i
A Chymry ydyn ni
Cymru yw y wlad a garwn
a'r Gymraeg a siaradwn.

### Cardi i'r Carn
### (Glesni Angharad Morgan)

Ac ar ôl cystadlu brwd drwy'r dydd, roedd pwyntiau'r tri thŷ yn agos iawn; ond Rheidol a gariodd y dydd yn y pen draw. Da iawn i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau Eisteddfod Ysgol lwyddiannus iawn eleni eto. Hoffa'r ysgol ddiolch i'r beirniaid profiadol am eu doethineb yn ystod y dydd, sef Mrs Ann Evans, Mrs Kathleen Evans a Mrs Luned Richards.

## Dylunio'r 'Gadair'

Yn ôl y drefn cynhaliwyd cystadleuaeth ychwanegol er mwyn dylunio cadair fach fel gwobr i enillydd 'Y Gadair'. Eleni Trystan Griffiths o flwyddyn 6 a ddaeth yn fuddugol. Diolch i Mr Carwyn Lloyd Jones am greu dyluniad mor effeithiol.

## Twmpath

Ar yr ail o Fawrth, trefnwyd Twmpath yn Neuadd y Pentref i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Cafwyd gwledd o ddawnsio gwerin, gwobrau, gwisg ffansi, raffl, digon o fwyd a diod. Diolch i Erwyd Howells, Brian Jones a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu noson wych.

## Clwb Cant

Yn ystod y Twmpath cyhoeddwyd enillwyr Fis Mawrth. Dyma'r canlyniad
1af - £25 Melissa Lewis, Bungalow 1, Swn y Môr, Ynys-las.
2il - £15 Lleucu Siôn, Tyddyn Llwyd, Llandre.
3ydd-£10 Glesni Morgan, Ger y Nant, Dolau.

## Diwrnod y Llyfr

Roedd hi'n Ddiwrnod y Llyfr ar Fawrth y 3ydd. Braint ac anrhydedd oedd croesawu Angharad Tomos i'n plith. Mae Angharad Tomos yn cael ei chydnabod am ei chyfres lwyddiannus, Rala Rwdins; llyfrau yn cynwys hanesion difyr am wrach fach hoffus. Cafodd plant o'r dosbarth Derbyn i flwyddyn 6 gyfle i gwrdd â'r awdures a gwrando ar sut y mae'n mynd ati i greu cymeriadau a storÐau mor ddifyr.

## Twm Tisian

Ar y 4ydd o Fawrth, cafodd plant blwyddyn 2 ymweliad gan Twm Tisian, cymeriad sydd yn ymddangos ar raglen 'Cyw' ar S4C. Bu'r plant yn ddiwyd drwy'r dydd yn cwblhau tasgau celf tra'n cael eu ffilmio. Mi fydd y plant yn ymddangos ar Cyw cyn hir.

## Beicio

Mae plant blwyddyn 6 yn brysur yn gwella a datblygu eu sgiliau ffordd fawr ar eu beiciau. Maent yn paratoi ar gyfer y prawf terfynol er mwyn ennill tystysgrif diogelwch ar y ffordd fawr. Hoffa'r ysgol ddiolch i Mr Malcolm Charlton am yr hyfforddiant.


Glesni Morgan-enillydd Y Gadair a Trystan Griffiths enillydd dyluniad y Gadair.


Angharad Tomos yn ymweld â'r ysgol ar Ddiwrnod Y Llyfr.


Y Dosbarth Meithrin a'r Derbyn ar Fawrth y cyntaf.


Twm Tisian a blwyddyn 2 yn ffilmio ar gyfer 'Cyw'.

# YSGOL PEN-LLWYN

### Gala Nofio Rownd Terfynol

Aeth Jo Jones, Iestyn Watson a Nuala Ellis-Jones i'r rownd derfynol yn y Gala Nofio — Jo yn y ras broga Blwyddyn 6, Iestyn yn y ras rhydd a pili-pala Blwyddyn 5 a Nuala yn y ras rhydd Blwyddyn 4. Llongyfarchiadau i'r tri am wneud mor dda.

### Bara

Cafodd dosbarth 1 fore o helpu Cathy, ein cogyddes, i wneud bara. Roedd hyn yn brofiad gwerthfawr i'r plant a chafodd pawb rolyn blasus gyda'i cawl.

### Cystadleuaeth Pêl-droed 5 bob ochr yr Urdd

Fe wnaeth y tîm pêl-droed yn arbennig o dda i ennill cystadleuaeth 5 bob ochr Ardal Aberystwyth a mynd ymlaen i'r Gystadleuaeth Sir. Yn anffodus er i'r tîm ennill rhai o'r gêmau a cholli o drwch blewyn mewn rhai eraill ni ddaethant i'r brig y tro yma. Da iawn chi am ymdrechu mor galed.

### Prynhawn Agored

Yn ystod mis Chwefror bu Dr Ieuan Joyce (un o lywodraethwyr yr ysgol), y staff a'r disgyblion yn cyd-weithio yn agos er mwyn gwella amgylchedd yr ysgol. Aeth y plant ati i greu posteri deniadol a lliwgar er mwyn croesawu pobl i'r ysgol. Yna, fe fuon nhw'n ychwanegu at gynllun yr ysgol ac yn arlunio pethau hoffen nhw weld ar dir yr ysgol. Gwahoddwyd y rhieni i ddod i'r ysgol ar brynhawn dydd Iau, Chwefror 17eg i weld gwaith y plant ac i drafod eu syniadau. Yn ystod y prynhawn fe gafodd y rhieni gyfle i gwrdd â Mr Emyr Pugh-Evans sydd wedi cael ei benodi fel pennaeth ar Ysgol Pen-llwyn. Fe fydd yn cychwyn fel pennaeth â gofal ar ôl gwyliau'r Pasg.

### Dewi Pws

Cafodd Dosbarth 2 ymweliad gan Fardd Plant Cymru - sef Dewi Pws - ac Elaine Thomas a drefnodd y gweithdy. Treuliodd y plant y sesiwn yn mwynhau gwrando ar jôcs a storiau digri gan Dewi Pws. Cawsant gyfle hefyd i wneud tasg ysgrifenedig drwy chwilio am wybodaeth o lyfrau gwahanol. Yn sicr, gwnaeth pawb fwynhau eu cwmni, nid oeddym wedi chwerthin cymaint yn y dosbarth ers amser.

### Eisteddfod Dydd Gwyl Dewi

Ar fore dydd Mawrth, Mawrth 1af daeth y plant i'r ysgol yn eu gwisgoedd Cymreig yn edrych yn hardd iawn. Yn ystod y bore fe fuon ni'n astudio hanes Dewi Sant ac yn gorffen amryw o gystadlaethau ar gyfer ein heisteddfod. Fe fuon ni'n chwarae rygbi hefyd yn ystod y prynhawn.

### Canlyniadau'r Eisteddfod

Llawysgrifen Derbyn
1af: Osian
2il: Megan
3ydd: Courtney

Llawysgrifen Bl 1 a 2
1af: Morgan
2il: Levi
3ydd: Blake a Llŷr

Llawysgrifen Bl 3 a 4
1af: Nuala
2il: Alaw
3ydd: Lorenzo

Llawysgrifen Bl 5 a 6
1af: Manon
2il: Jo a Pepe
3ydd: Gethin a Tomos



Plant Dosbarth 2 yn mwynhau yng nghwmni Dewi Pws



Dosbarth 1 yn coginio bara gyda Cathy ein cogyddes.



Disgyblion Pen-llwyn yn eu gwisgoedd Cymreig ar Ddydd Gŵyl Dewi

Ysgrifennu stori Bl 2
1af: Llŷr
2il:Morgan
3ydd: Levi

Ysgrifennu traethawd Bl 3 a 4
1af: Alaw
2il: Haf
3ydd: Laura a Alan

Ysgrifennu traethawd Bl 5 a 6
1af: Jo
2il: Steffan
3ydd: Tomos a Iestyn

Arlunio Derbyn
1af: Osian
2il: Megan
3ydd: Owain

Arlunio Bl. 1 a 2
1af: Levi
2il: Morgan
3ydd: Carys

Arlunio Bl. 3 a 4
1af: Nuala
2il: Laura
3ydd: Jack

Arlunio Bl. 5 a 6
1af: Alison
2il: Gethin
3ydd: Tomos

Model Dosbarth 1
1af: Huw a Llŷr
2il: Owain
3ydd: Carys

Model Dosbarth 2
1af: Alaw
2il: Tomos
3ydd: Alison

### Diwrnod y llyfr

Ar ddydd Iau, Mawrth 3ydd bu'r plant yn astudio a thrafod amryw o lyfrau gan gynhyrchu gwaith da iawn yn Gymraeg a Saesneg. Roedd pawb yn amlwg yn gweld pwysigrwydd llyfrau.

### Tysteb

Mae Mrs Charlton yn gorffen fel Pennaeth ar ddiwedd y tymor ar ôl deunaw mlynedd o wasanaeth. Fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth i'r ysgol a'r gymuned, trefnir tysteb i'w gyflwyno iddi. Cyfraniadau os dymunir i'r ysgol **erbyn Dydd Llun, Ebrill 11eg**. Bydd parti yn cael ei drefnu yn fuan!

# TASG Y TINCER

Gobeithio i chi fwynhau eich eisteddfodau ysgol a'ch cyngherddau Gŵyl Ddewi. Ddaru chi wisgo cennin Pedr neu siwmper goch? Gwelais lun rhai ohonoch yn y *Cambrian News* yn edrych yn smart iawn.

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r plentyn wrthi'n brysur yn darllen llyfr. Ddaru chi ddathlu Diwrnod y Llyfr ar ddechrau'r mis? Mi es i wrando ar Angharad Tomos yn llyfrgell y dref yn Aberystwyth. Rwy'n siŵr i mi weld rai o blant *Y Tincer* yno'n gwrando arni.

Dyma pwy fu'n lliwio: Nia Jones, Brynolwg, Bont-goch; Griff, 11 Broncynfelin, Llangorwen; Mackenzie Frya Byrne, Ysbryd y Gors, Y Borth; Elin Pierce Williams, Bryncastell, Bow Street; Ela Glain a Garan Rhys Ebenezer Thomas, 61 Rhodfa Butleigh, Caerdydd; Dafydd Rhodri Jones, TÐ'r Banc, Bont-goch; Sara Elisa ap Robert John, Y Stryd Uchel, Aberystwyth; Carwyn Dafydd Davies, Cynon Fawr, Llanfihangel-y-Creuddyn; Luke Taylor, 26 Cae'r Odyn, Bow Street.

Roedd eich gwaith yn ardderchog — diolch am gystadlu. Ti Mackenzie Freya sy'n ennill y tro hwn. Hoffais dy seren goch, a thudalennau melyn dy lyfr. Hyfryd! Gobeithiwn gael llun ohonot i rifyn nesaf y Tincer.

Erbyn i chi dderbyn y *Tincer* y mis hwn, mi fyddwn wedi bod yn dathlu gÐyl nawddsant Iwerddon, sef **Sant Padrig**, ar 17 Mawrth. Wyddoch chi bod rhai chwedlau'n dweud bod Padrig wedi ei eni ym mhentref Banwen, yn ardal Port Talbot? Roedd Padrig yn ddyn da, ac yn ôl y sôn, defnyddiodd feillionen, (*shamrock*) wrth bregethu am Dduw. Mae gan y feillionen dair deilen fach werdd; rwy'n siÐr eich bod wedi gweld y planhigyn yn tyfu yn ardal *Y Tincer*! Rwy'n siŵr hefyd eich bod wedi sylwi mai dillad lliw gwyrdd y mae pobl o Iwerddon yn eu gwisgo mewn gêmau rygbi, ac ati, sef lliw y feillionen. Mae Gwyddelod Efrog Newydd yn dathlu trwy gael parti mawr ar strydoedd y ddinas, gyda channoedd o fandiau a baneri. Am sioe! Beth am edrych am fwy o ffeithiau am Padrig ar y we, neu holwch yn eich llyfrgell leol.

Y mis hwn, gan fod y tywydd yn gwella a'r dydd yn ymestyn o'r diwedd, beth am liwio llun y parc? Beth yw eich hoff beth yn y parc? Rwy'n nabod sawl un sydd wrth eu boddau ym mharc Llandre, yn chwarae ar y llithren. Wela'i chi yno! Anfonwch eich lluniau ata'i erbyn Ebrill 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed

Rhif ffôn

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

Llety Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi .
Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 337 | MAWRTH 2011